



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Dileu ffioedd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd – ymateb i'r ymgyngoriad

Ymateb i'r Ymgynghoriad CP15/2013

Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 09 Medi 2013



Dileu ffioedd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd – ymateb i'r ymgynghoriad

Cyflwyniad i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Medi 2013

© Hawlfraint y Goron 2013

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Pan ydym wedi nodi deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti, mae'n rhaid i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylech anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn: mojfeespolicy@justice.gsi.gov.uk

Gallwch lwytho'r cyhoeddiad hwn i lawr o: <<https://www.gov.uk/government/consultations/fee-remissions-in-the-courts-and-tribunals>>, neu <<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/fee-remissions-court-tribunals>>www.justice.gov.uk <<http://www.justice.gov.uk>>

ISBN: 9780101870429

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Gyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
Rhif ID2586672 09/13

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ddeunydd ffibr wedi'i ailgylchu

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

At: Roedd yr ymgynghoriad '*Dileu ffioedd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd*' (CP15/2013) wedi'i anelu ar gyfer defnyddwyr y llysoedd a thribiwnlysoedd, y Panel Cydnabod Rhyw, proffesiwn y gyfraith, y farnwriaeth, y sector cyngor a phawb sydd â diddordeb yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Hyd: O 18/04/2013 i 16/05/2013.

Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i dderbyn copi o'r papur mewn fformat arall) at:

Rachel Vickerstaff
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 5389
Ffacs: 020 3334 2233

E-bost: mojfeespolicy@justice.gsi.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	3
Cefndir	5
Diwygio'r system dileu ffioedd	7
Casgliad a'r camau nesaf	21
Atodiad A: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	22
Atodiad B: Rhestr o'r Ymatebwyr	46
Atodiad C: Trin cyfalaf ac incwm gwario	49
Atodiad D: Apeliadau	54

Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad a gynhyrchwyd yn dilyn ymgynghoriad ar y papur ymgynghori 'Dileu ffioedd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd' (CP15/2013).

Mae'n cynnwys:

- cefndir yr adroddiad
- y diwygiadau i'r system dileu ffioedd
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, a
- chrynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad.

Gallwch gael rhagor o gopiâu o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â **Rachel Vickerstaff** yn y cyfeiriad isod:

Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

Ffôn: 0203 334 5389
E-bost: mojfeespolicy@justice.gsi.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn:
<https://www.gov.uk/government/consultations/fee-remissions-in-the-courts-and-tribunals>,
or <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/fee-remissions-court-tribunals>

Gallwch wneud cais am gopi o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau gwahanol drwy gysylltu â: mojfeespolicy@justice.gsi.gov.uk or 0203 334 5389.

Cefndir

1. Roedd y cynigion a gyflwynwyd yn y papur ymgynghori yn cynrychioli'r diwygiadau pellgyrhaeddol i'r system dileu ffioedd. Mae'r system dileu ffioedd yn sicrhau y gall yr unigolion hynny ar incwm is gael mynediad at gyfiawnder, a fyddai fel arall yn cael anhawster i dalu ffi i ddefnyddio gwasanaethau'r llysoedd neu dribiwnlysoedd. Felly, gall unigolion o'r fath gael gafael ar wasanaethau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd am ddim, neu am gyfradd is. Mae dilead ffi yn hepgoriad llawn neu rannol o'r ffioedd a fydd yn daladwy pan fydd unigolyn yn defnyddio'r gwasanaethau hyn.
2. Mae system dileu ffioedd bresennol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) yn cynnwys tair elfen, a elwir hefyd yn feini prawf cymhwyster cymhwyso:
 - Dilead 1 – Dilead ffi llawn awtomatig i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau cymwys sy'n dibynnu ar brawf modd, a elwir yn fudd-dal 'pasbortio';
 - Dilead 2 – Dilead ffi llawn i'r rhai y cyfrifwyd fod eu hincwm blynyddol gros yn is na'r trothwyon penodedig; a
 - Dilead 3 - Dilead ffi llawn neu rannol sy'n seiliedig ar incwm a gwariant sy'n dibynnu ar brawf modd, er mwyn cyfrifo incwm gwario misol net. Mae Atodiad A yn cynnwys crynodeb mwy manwl o'r system dileu ffioedd presennol.
3. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori '*Dileu ffioedd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd*' (CP15/2013) ar 18fed Ebrill 2013, a daeth i ben ar 15fed Mai 2013. Roedd yn gwahodd sylwadau gan grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb yn y llysoedd sifil, tribiwnlysoedd a'r Panel Cydnabod Rhyw. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig.
4. Gellir crynhoi'r cynigion fel a ganlyn:
 - Cyflwyno un system dileu ffioedd ar draws y maes sifil a thribiwnlysoedd a weithredir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (yn cynnwys y Panel Cydnabod Rhyw) a Goruchaf Lys y DU. Nid yw'r cynigion yn berthnasol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambwr Mewnfudo a Lloches) oherwydd bu eu system dileu ffioedd hwy yn destun ymgynghoriad ar wahân yn gynharach eleni, nac i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, sy'n un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder;
 - Diwygiadau i'r budd-daliadau a dderbynnir fel rhan o'r prawf o hawl i ddileu ffioedd, gan ystyried cyflwyniad y Credyd Cynhwysol;
 - Cyflwyno prawf cyfalaf gwario i'r meini prawf cymhwyso;

- Diddymu'r budd-dal cymhwyso ar gyfer "Credyd Treth Gwaith ond nid pobl sydd hefyd yn derbyn Credyd Treth Plant";
 - Cyflwyno un asesiad incwm i ddisodli meini prawf presennol Dilead 2 a 3, sy'n cael eu defnyddio yn y rhan fwyaf o lysoedd (bydd pobl sy'n gwneud cais am ddileu ffi, sydd ag incwm misol gros sy'n is na throthwy penodol, yn gymwys yn awtomatig i gael dilead ffi llawn pan fyddant hefyd yn pasio prawf cyfalaf gwario, lle byddai'n ofynnol i ymgeiswyr sydd ag incwm dros y trothwy hwn dalu cyfraniad os byddant hefyd yn pasio'r prawf cyfalaf gwario);
 - Diddymu'r ffioedd a delir ar gyfer llungopio a chwilio o gwmpas y darpariaethau dileu ffioedd; a
 - Lleihau'r cyfnod o amser lle gellir gwneud cais am ddileu'r ffi yn ôl-weithredol o chwe mis i ddau fis.
5. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 16eg Mai 2013 ac mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cynigion y llywodraeth ar gyfer diwygio'r system dileu ffioedd yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd.
6. Mae'r Asesiad o'r Effaith sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn wedi'i ddiweddarau. Mae'r Asesiad o'r Effaith diweddaraf ar gael yn:
<https://www.gov.uk/government/consultations/fee-remissions-in-the-courts-and-tribunals>, neu <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/fee-remissions-court-tribunals>
7. Cafodd y Datganiad Cydraddoldeb terfynol ei ddiweddarau er mwyn ystyried ymatebion rhanddeiliaid, ac mae ar gael yn **atodiad C** yr Asesiad o'r Effaith.
8. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn **atodiad B**.

Diwygio'r system dileu ffioedd

1. Derbyniwyd 64 o ymatebion i'r ymgynghoriad; mae rhestr o'r ymatebwyr ar gael yn **atodiad B**. Ceir dadansoddiad o'r ymatebion hyn yn **atodiad A**. Mae'r adran hon yn rhoi amlinelliad o ddiwygiadau arfaethedig y llywodraeth i system dileu ffioedd y llysoedd, tribiwnlysoedd a Goruchaf Lys y DU yng ngoleuni'r ymatebion hynny.

Un system dileu ffioedd

2. Byddwn yn cyflwyno un system dileu ffioedd ym mhob llys a thribiwnlys ac yng Ngoruchaf Lys y DU. Bydd y system hon yn decach, yn fwy tryloyw ac yn haws i holl ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.
3. Er ein bod yn cydnabod y gallai fod gan ddefnyddwyr y gwahanol lysoedd a thribiwnlysoedd nodweddion neu amgylchiadau unigryw, credwn fod un system sy'n seiliedig yn gyfan gwbl ar allu defnyddwyr i dalu ffi yn gyson, yn deg ac yn haws i'w deall ac yn diogelu mynediad at gyfiawnder yr un pryd. Nid ydym yn credu y dylai unigolyn sy'n defnyddio dau wahanol lys neu dribiwnlys dderbyn dau benderfyniad dileu ffioedd gwahanol. Nid yw ffi o £200, er enghraifft, yn fwy neu'n llai fforddiadwy i ymgeisydd, p'un a yw'r ymgeisydd hwnnw yn ceisio cael mynediad at blentyn, yn cyflwyno hawliad i dribiwnlys cyflogaeth neu'n gwneud cais i'r Panel Cydnabod Rhyw.
4. Nid yw'r llywodraeth o'r farn bod y cyfnodau cyfyngu amrywiol mewn gwahanol lysoedd a thribiwnlysoedd yn rheswm digonol dros fabwysiaadau system dileu ffioedd wahanol. Mae'n credu y gellir casglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi cais o fewn y terfynau amser sy'n weithredol ar hyn o bryd. Pan fydd angen cais brys, mae gan reolwr y llys neu'r tribiwnlys y pŵer i hepgor ffi ar yr amod bod tystiolaeth o gymhwyster i gael dileu'r ffi yn cael ei chyflwyno'n ddiweddarach. Mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth, bydd hawliad yn cael ei ffeilio ar ôl cael ei gyflwyno cyhyd ag y bydd naill ai'r ffi neu gais am ddileu'r ffi wedi'i amgáu gyda'r hawliad, hyd yn oed os oes unrhyw wall ynglŷn â lefel y ffi neu wrth gwblhau'r cais am ddileu'r ffi.
5. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, ni fydd hyn yn berthnasol i'r system dileu ffioedd ar gyfer y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambwr Mewnfudo a Lloches), oherwydd bod cyfran sylweddol o ddefnyddwyr y tribiwnlys hwn yn byw y tu allan i'r DU. Byddai system dileu ffioedd sy'n seiliedig ar dderbyn budd-daliadau'r DU a lefelau incwm y DU yn anymarferol i'w gweithredu. Nid ydym yn ystyried bod y mater hwn o ymarferoldeb yn berthnasol i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd eraill sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.
6. Fodd bynnag, bydd y system dileu ffioedd hon yn berthnasol i'r Tribiwnlys Uwch (Siambwr Mewnfudo a Lloches) (UTIAC), sy'n gwrando achosion Adolygiadau Barnwrol sy'n codi ffioedd. Ar hyn o bryd, mae system dileu ffioedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) yn berthnasol i'r achosion hyn ac felly bydd y system dileu ffioedd unigol yr ymgynghorwyd arni yn y ddogfen hon, yn berthnasol i achosion Adolygiadau Barnwrol a wrandewir gan UTIAC.

Cyflwyno prawf cyfalaf gwario

7. Byddwn yn cyflwyno prawf cyfalaf gwario ar gyfer asesu cymhwyster ariannol ymgeisydd i gael dileu ffi. Rydym yn credu ei bod yn afresymol disgwyl i drethdalwyr barhau i sybsideiddio'r rhai sydd â'r gallu ariannol i dalu ffi llys neu dribiwnlys. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno, mewn egwyddor, â'r bwriad i gyflwyno prawf cyfalaf gwario. Os bydd gan ymgeisydd gyfalaf gwario (e.e. cynilion) sydd ar gael iddynt, mae'n briodol disgwyl iddynt wario cyfran o'r cynilion hyn cyn gofyn am arian y trethdalwyr.
8. Nid ydym yn credu y bydd y prawf cyfalaf gwario yn cosbi cynilwyr, fel yr awgrymwyd gan rai o'r ymatebwyr, ond y dylid targedu'r system dileu ffioedd ar gyfer y rhai na allant fforddio ffi oherwydd lefelau isel o gyfalaf ac incwm gwario. Mae'n afresymol disgwyl i drethdalwyr barhau i sybsideiddio'r rhai â'r gallu ariannol i dalu ffi llys neu dribiwnlys.
9. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylai rhai grwpiau defnyddwyr penodol gael eu heithrio o'r prawf cyfalaf gwario. Ar ôl ystyried y dadleuon a gyflwynwyd, mae'r llywodraeth yn parhau i gredu y dylai'r prawf cyfalaf gwario fod yn berthnasol i bob ymgeisydd, oherwydd dylai'r rhai sy'n gallu talu eu ffi wneud hynny. Cyflwynwyd dadleuon dros eithriadau ar gyfer y categorïau canlynol o ymgeiswyr:
 - Pobl dros 60 oed: Nid ydym yn credu ei bod yn rhesymol eithrio pobl dros 60 oed o'r prawf cyfalaf yn llwyr ond, ar ôl ystyried yr ymatebion ar y mater hwn, mae'r llywodraeth yn cydnabod nad yw pensiynwyr mewn sefyllfa gref i adennill cyfalaf, o gymharu ag ymgeiswyr o oedran gweithio, a'u bod yn aml yn ddibynnol ar gynilion i ategu incwm isel, ac maent yn fwy tebygol o wynebu costau gofal. Felly, rydym yn cynnig cyflwyno trothwy cyfalaf gwahanol i ymgeiswyr 61 oed a hŷn (oedran ymddeol presennol y wladwriaeth ar gyfer merched)
 - Defnyddwyr y tribiwnlys cyflogaeth: Rydym yn anghytuno â'r ddadl a gyflwynwyd gan rai ymatebwyr na all defnyddwyr y tribiwnlysoedd cyflogaeth gael gafael ar y cyfalaf gwario sy'n cael ei ystyried o fewn y cyfyngiadau amser a bennwyd i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd cyflogaeth i gyflwyno hawliad. Cynlluniwyd y prawf cyfalaf gwario i eithrio cyfalaf na ellir cael gafael arno'n rhwydd (gweler **atodiad C**). Rydym yn parhau i gredu ei bod yn briodol ystyried cyfalaf a ddelir mewn ail gartref ac ystyried y gall y rhai sydd ag asedau sylweddol o'r fath gael gafael ar gyfalaf o'r asedau hyn i ariannu eu ffi ac felly na ddylai'r trethdalwyr orfod sybsideiddio hyn
 - Defnyddwyr y Panel Cydnabod Rhyw: Cyflwynwyd dadl y gallai rhai o ddefnyddwyr y Panel Cydnabod Rhyw fod wedi cynilo ar gyfer triniaeth ailbennu rhywedd, ac y byddai gofyn iddynt dalu ffi o'u cynilion yn annheg. Fodd bynnag, mae'r ffi o £140 yn y Panel Cydnabod Rhyw yn gymharol isel ac nid ydym yn cytuno, pan fydd unigolyn wedi penderfynu cynilo i ariannu ei driniaeth ailbennu rhywedd, ei bod yn annheg disgwyl iddo hefyd gyfrannu at y ffi pan fydd ganddo'r modd i wneud hynny.

Trothwyon y prawf cyfalaf gwario

10. Ar gyfer ymgeiswyr o dan 61 oed, byddwn yn cyflwyno prawf cyfalaf gwario sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai â chyfalaf gwario rhwng £3000 ac £8000 wario dim mwy na thraean o'u cyfalaf gwario ar ffi, ac ni fydd y rhai â £8000 neu fwy yn gwario mwy na hanner eu cyfalaf gwario ar ffi.

11. Nid ydym yn cytuno â'r honiad a wnaed gan rai ymatebwyr y byddai rhai ymgeiswyr yn penderfynu peidio â chanlyn achos llys neu driwlynlys os disgwylir iddynt dalu cyfran o'u cyfalaf gwario tuag at ffi. Rydym hefyd yn anghytuno â'r awgrym a wnaed gan rai ymatebwyr y dylai'r trothwy cyfalaf adlewyrchu'r trothwyon mewn profion eraill, e.e. y trothwy £8000 ar gyfer y Credyd Cynhwysol neu ar gyfer rhai mathau o Gymorth Cyfreithiol. Nid ydym yn credu bod cymharu â phroffion modd eraill, sy'n gysylltiedig â thalu symiau uwch o arian o bosibl, dros gyfnod hwy, yn darparu cymhariaeth ystyrllon i ffioedd llys sydd fel arfer yn symiau llai o lawer dros gyfnod llai o amser. Mae'r ffioedd llys a thriwlynlys mwyaf cyffredin yn £500 neu lai, ac mae'n rhesymol tybio y bydd y mwyafrif o ddefnyddwyr y llysoedd a thriwlynlysoedd yn cyfrannu cyfran is (na thraean neu hanner) eu cyfalaf gwario ar unrhyw ffi.
12. Er ein bod yn cytuno bod y trothwyon yr ymgynghorwyd arnynt yn briodol, rydym yn cydnabod bod yr ymagwedd tair haen a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad wedi creu rhai canlyniadau anfwriadol. Felly, byddwn yn cyflwyno prawf cyfalaf gwario diwygiedig, a fydd yn cynnwys uchafsymiau cyfalaf gwario haenog strwythuredig, sy'n seiliedig ar y ffi sy'n ddyledus. Mae defnyddio mwy o uchafsymiau cyfalaf gwario yn lleihau effaith 'clogwyn', lle gallai pobl sydd â ffioedd cymharol debyg, fod yn talu cyfrannau gwahanol iawn o'u cyfalaf tuag at y ffi.

Y ffi a godwyd: Trothwy cyfalaf gwario:

Hyd at £1,000	£3,000
£1,001 i £1,335	£4,000
£1,336 i £1,665	£5,000
£1,666 i £2,000	£6,000
£2,001 i £2,330	£7,000
£2,331 i £4,000	£8,000
£4,001 i £5,000	£10,000
£5,001 i £6,000	£12,000
£6,001 i £7,000	£14,000
£7,001 neu fwy	£16,000

13. I bobl dros 61 oed, byddwn yn cyflwyno un trothwy cyfalaf o £16,000 waeth beth yw lefel y ffi sy'n daladwy, sy'n golygu y bydd ymgeiswyr 61 oed neu'n hŷn, sydd â chyfalaf o lai na £16,000 yn symud ar unwaith i'r prawf incwm.
14. Mae telerau'r prawf cyfalaf gwario yn cynnwys lwfansau (diystyriadau) ar gyfer rhai o ddefnyddwyr y llysoedd a thriwlynlysoedd, a allai fod o dan anfantais o ganlyniad i gyflwyno prawf cyfalaf gwario (gweler atodiad C am fanylion pellach). Er enghraifft, mae yna ddiystyriadau ar gyfer taliadau gofal cymunedol, iawndal ar gyfer anaf personol/esgeulustra meddygol a thaliadau cyfalaf o'r Gronfa Byw'n Annibynnol.

15. Os bydd amgylchiadau pan allai ffi sy'n cael ei thalu gan ymgeisydd, sydd â'r lefel angenrheidiol o gyfalaf, arwain at galedi ariannol neu fath arall o galedi, er enghraifft anallu i dalu ar gyfer anghenion gofal, bydd yn bosibl gwneud cais am ddileu ffioedd ar sail amgylchiadau eithriadol.

Telerau'r prawf cyfalaf gwario

16. Bydd y llywodraeth yn cyflwyno prawf cyfalaf gwario a fydd yn ailadrodd, i raddau helaeth, y telerau a nodwyd yn yr ymgynghoriad (gweler **atodiad C** i gael manylion llawn). Mae telerau'r prawf cyfalaf gwario yn ddigon manwl i dargedu'r cynllun dileu ffioedd yn effeithiol ar gyfer y rhai sydd ei angen fwyaf, wrth barhau i fod yn ddigon syml i ddefnyddwyr (a staff) ei ddeall. Yn dilyn nifer o awgrymiadau a chwestiynau gan ymatebwyr, rydym wedi darparu mwy o eglurder ar delerau'r prawf cyfalaf gwario, drwy nodi'n glir beth sy'n cael ei gynnwys neu ei ddiystyru (e.e. pob math o gyfalaf taliadau dileu swyddi); ac rydym wedi ychwanegu rhai diystyriadau ychwanegol (e.e. taliadau o dan y cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol).
17. Mae'r llywodraeth yn parhau i gredu y dylid ystyried pob ased cyfalaf gwario (e.e. cartrefi gwyliau), yn amodol ar yr eithriadau a nodwyd yn **atodiad C**, er mwyn sicrhau bod y system dileu ffioedd ond yn cael ei thargedu ar gyfer y rhai heb y modd ariannol i dalu ffi llys neu driwiwnlys.
18. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn dadlau o blaid eithriadau ychwanegol neu'n gofyn am eglurhad ar delerau'r prawf:
 - Taliadau diswyddo annheg a dileu swyddi: Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau ei bod yn anghyson diystyru taliadau diswyddo annheg o'r prawf cyfalaf gwario, tra bod taliadau dileu swyddi wedi'u cynnwys. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn gofyn hefyd am eglurder o ran pa daliadau dileu swyddi fyddai'n cael eu cynnwys. Ar ôl ystyried yr ymatebion, mae'r llywodraeth o'r farn ei bod yn rhesymol i'r rhai sydd wedi derbyn taliad dileu swyddi sylweddol (o unrhyw fath), ac sydd â'r modd ariannol felly i dalu ffi llys neu driwiwnlys, dalu ffi o'r fath. Mae'n parhau i gredu bod gwahaniaeth rhwng taliadau dileu swyddi, a fydd yn cael eu hystyried fel cyfalaf gwario, a thaliadau diswyddo annheg oherwydd mae'r olaf o'r ddau yn cael ei dalu ar ôl barnu bod cyflogwr wedi gweithredu'n anghyfreithlon.
 - Mae'r llywodraeth yn anghytuno â'r ddadl a wnaed gan rai o'r ymatebwyr y dylid diystyru taliadau dileu swyddi ar y rhagdybiaeth y bydd gan rai cyflogeion achosion cadarn am ddiswyddo annheg. Os bydd achos yn llwyddiannus, mae'n bosibl y gellir hawlio'r ffi a dalwyd gan y cyflogwr yn y tribiwnlys cyflogaeth. Mae hefyd o'r farn y byddai'n annhebygol iawn y byddai cyflogwyr (yn arbennig Busnes Bach a Chanolig sydd ag incwm cyfyngedig) yn talu taliadau dileu swyddi uwch na'r hyn sy'n ofynnol iddynt eu talu er mwyn sicrhau na fydd cyn-gyflogai yn gymwys i gael dileu'r ffi, fel yr awgrymwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.
 - Cyfalaf a ddelir ar y cyd: Roedd rhai o'r ymatebwyr yn ansicr ynglŷn â'r ffordd yr oedd cyfalaf a ddelir ar y cyd yn cael ei ystyried. I egluro, pan fydd gan ymgeisydd gyfalaf a ddelir ar y cyd (gyda rhywun nad yw'n bartner iddynt), byddwn ond yn ystyried cyfran yr ymgeisydd o'r cyfalaf hwnnw.

Byddwn yn tybio bod gan yr ymgeisydd gyfran gyfartal yn yr ased cyfalaf, oni allant brofi fel arall. Er enghraifft, byddai ymgeisydd sy'n berchen ar ail gartref heb forgais gyda dau o'i ffrindiau, sy'n werth £99,000¹; asesir bod ganddo £33,000 o gyfalaf gwario ac felly ni fyddai'n gymwys i gael dileu'r ffi. Fodd bynnag, mae cyfalaf gwario a ddelir ar y cyd yn wahanol i gyfalaf y mae cwpl yn berchen arno, sy'n cael ei ystyried yn llawn fel cyfalaf gwario aelwyd at ddiben cais am ddileu ffioedd (ac eithrio'r achosion hynny pan fydd gan y partner fudd gwrthwynebus yn yr achos).

Tystiolaeth o blaid y prawf cyfalaf gwario a gorfodi'r prawf hwn

19. Ni fyddwn yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'u cyfalaf gwario wrth wneud cais am ddileu ffioedd. Rydym yn ceisio cynnal prawf syml a thryloyw, nad yw'n rhoi gormod o faich ar yr ymgeiswyr a'r staff. Byddai gofyn i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'u holl gyfalaf gwario yn feichus ac yn gymhleth yn weinyddol, ac ni fyddai'n datrys y mater o brofi honiad bod ganddynt asedau cyfalaf. Byddwn yn parhau i roi disgrisiwn i Reolwyr Cyflenwi (Rheolwyr Llysoedd neu Dribiwnlysoedd) i ofyn am dystiolaeth ychwanegol os bydd unrhyw amheuan mewn achos.
20. Mae'r llywodraeth yn cydnabod y pryderon sydd gan rai ymatebwyr y bydd lleiafrif o ymgeiswyr, mewn unrhyw system o brofi modd, yn darparu gwybodaeth ffug yn anfwriadol er mwyn osgoi talu ffi llys neu dribiwnlys. Roedd yr ymgynghoriad yn datgan, os canfyddir bod ymgeisydd wedi celu'r gwirionedd yn fwriadol yn eu cais am ddileu ffi, byddai'n rhaid iddynt dalu'r ffi gyflawn. Fe awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylid creu cosb fwy cadarn ar ffurf trosedd cyfreithiol penodol. Nid ydym yn cytuno bod angen creu trosedd newydd i ddelio â'r rhai sy'n darparu gwybodaeth ffug, oherwydd mae trosedd o'r fath eisoes yn bodoli. Yn hytrach, byddwn yn esbonio'n glir yn y canllawiau ac ar y ffurflenni cais, y gallai darparu gwybodaeth ffug at ddibenion cael dileu'r ffi arwain at achos troseddol o dwyll. Bydd y trosedd ond yn berthnasol pan fydd gwybodaeth ffug yn cael ei darparu'n fwriadol, yn hytrach na cheisiadau pan fydd camgymeriadau gwirioneddol wedi'u gwneud, a bydd y staff wedi derbyn hyfforddiant llawn ar hyn a gallant roi cyngor i ymgeiswyr ar eu cais am ddileu ffioedd a thelerau'r prawf cyfalaf; naill ai yn bersonol, yn ysgrifenedig neu dros y ffôn.
21. Mae'r llywodraeth yn cydnabod pryderon rhai o'r ymatebwyr o achosion prin pan nad yw ymgeiswyr, o bosibl, yn ymwybodol neu wedi'u camarwain ynghylch cyfalaf partner, yn arbennig mewn amgylchiadau anodd. Fodd bynnag, nid yw'n credu bod hyn yn darparu rheswm cymhellol dros eithrio cyfalaf partner o'r prawf. Mae'n credu ei bod yn rhesymol tybio bod y mwyafrif o gyplau yn rhannu eu gwybodaeth ariannol yn onest gyda'i gilydd. Mewn achosion pan fydd gan eu partner fudd gwrthwynebus, dim ond cyfalaf gwario'r ymgeisydd fydd yn cael ei ystyried. Mae'r ymagwedd hon yn adlewyrchu'r arfer presennol o asesu incwm yr aelwyd, sydd wedi bod yn weithredol yn y system dileu ffioedd bresennol am nifer o

¹ Mae gwerth ail gartrefi yn cael ei gyfrifo ar eu gwerth yn y farchnad, llai 10% ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â gwerthu tŷ a llai swm y dyledion sydd wedi'u sicrhau ar yr eiddo (e.e. morgais).

flynnyddoedd. Bydd hefyd yn bosibl i Reolwyr Cyflenwi barhau i ystyried cais am ddileu ffioedd o dan y prawf amgylchiadau eithriadol pan fydd angen.

Y prawf incwm misol gros

22. Bydd y llywodraeth yn cyflwyno prawf incwm misol gros, a fydd yn disodli'r profion budd wedi'i basportio (Dilead 1), blynyddol gros (Dilead 2) ac incwm misol net (Dilead 3); gan ddefnyddio'r meini prawf isod.

Tabl 1: Trothwyon incwm misol gros

Incwm misol gros gyda:	Sengl	Cwpl
Dim plant	£1,085	£1,245
1 plentyn	£1,330	£1,490
2 blentyn	£1,575	£1,735
Ychwanegwch £245 ar gyfer pob plentyn ychwanegol		

- Os bydd ymgeisydd wedi pasio'r prawf cyfalaf gwario, a bod ganddo incwm misol gros sy'n is na'r trothwy perthnasol a gyflwynir yn *Nhabl 1* (gan ddiystyru incwm o'r buddiannau sydd wedi'u heithrio, a restrir yn **atodiad C**), byddant yn gymwys i gael dilead llawn. Rydym yn bwriadu derbyn y bydd pobl sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, gwarant credyd Credyd Pensiwn a rhai pobl sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol, yn cael eu hystyried yn awtomatig yn is na'r trothwy incwm hwn. Felly, byddant yn cael dilead llawn, os byddant hefyd yn pasio'r prawf cyfalaf gwario aelwyd.
 - Os bydd gan ymgeisydd incwm misol gros sy'n uwch na'r trothwy perthnasol a nodir yn *Nhabl 1*, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd wneud cyfraniad at eu ffi o £5 ar gyfer pob £10 o incwm sy'n uwch na'r trothwy, hyd at werth y ffi. Mae hynny'n golygu, er enghraifft, pan fydd gan ymgeisydd incwm ychwanegol misol o £100 dros y trothwy perthnasol, bydd yn rhaid iddynt dalu £50 at eu ffi, neu swm llawn y ffi os bydd hyn yn £50 neu lai. Ni fydd ymgeisydd sydd ag incwm misol gros sy'n fwy na £4000 dros y trothwy perthnasol a nodir yn *Nhabl 1* yn gymwys i gael unrhyw ddilead.
23. Yn ei hanfod, bydd y prawf hwn yn targedu dileu ffioedd yn llawn ac yn rhannol ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf, drwy system syml ac ymarferol. Er enghraifft, bydd mam sengl sydd ag un plentyn ac incwm blynyddol gros o £15,900 yn cael dilead llawn os bydd hefyd yn pasio'r prawf cyfalaf; bydd unigolyn sengl sy'n ennill £12,900 hefyd yn cael dilead llawn os bydd hefyd yn pasio'r prawf cyfalaf. Bydd y prawf yn ystyried incwm misol gros yr ymgeisydd ac, incwm misol gros eu partner os bydd hynny'n berthnasol, (ar gyfer y mis cyn y cais am ddileu ffioedd), er mwyn i ni allu penderfynu a yw'r ymgeisydd mewn sefyllfa i dalu ffi llys neu dribiwnlys ar hyn o bryd.
24. Bydd y llywodraeth yn parhau i ddiystyru'r incwm a dderbynnir drwy rai budd-daliadau sy'n gysylltiedig â thai, gofal plant, anabledd a phrofedigaeth, wrth asesu

incwm misol gros ymgeisydd (gweler **atodiad C**). Bydd hefyd yn parhau i ddefnyddio trothwyon incwm misol gros a fydd yn amrywio yn ôl amgylchiadau aelwydydd – h.y. os bydd unigolyn yn sengl, mewn cwpl neu os oes plant ganddynt. Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae'r llywodraeth wedi ychwanegu at nifer y budd-daliadau a fydd yn cael eu diystyru o'r prawf incwm misol gros, i gynnwys:

- Efen gofawr y Credyd Cynhwysol;;
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol
- Efen Gallu Cyfyngedig i Weithio y Credyd Cynhwysol.

Mae'r budd-daliadau ychwanegol hyn yn disodli, neu'n darparu diben tebyg, i fudd-daliadau eraill sy'n cael eu diystyru o dan y prawf incwm misol gros.

25. Mae'r llywodraeth yn cadarnhau ei bwriad i roi dilead llawn awtomatig i bobl sy'n derbyn y 'Credyd Cynhwysol sydd ag enillion sy'n llai na £6000' os byddant hefyd yn pasio'r prawf cyfalaf. Mae hyn yn ailadrodd yn fras y niferoedd sy'n cael eu pasbortio yn awr drwy'r budd-daliadau cymhwyso arfaethedig o dan amodau'r Credyd Cynhwysol. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y dylai pawb sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol gael dilead llawn yn awtomatig. Fodd bynnag, yn ôl amcangyfrifon y llywodraeth, y gallai caniatáu i bobl sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol (ar ôl iddo gael ei gyflwyno'n llawn) gael eu basbortio'n awtomatig i'r prawf incwm, gostio hyd at £4 miliwn y flwyddyn mewn dileadau llawn ychwanegol, oherwydd bydd nifer arfaethedig o 2.6 miliwn o oedolion yn gymwys i gael rhywfaint o Gredyd Cymhwysol, ac ni fyddai rhai ohonynt yn gymwys o dan y prawf incwm, pe byddent yn cael eu profi ar wahân. Felly, ni fyddai pasbortio pawb sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yn effeithiol wrth dargedu cymhwyster ar gyfer dileadau llawn.
26. Bydd y llywodraeth yn cynnal y prawf incwm misol gros yn gyfartal i ddefnyddwyr pob llys a thribiwnlys. Mae'r llywodraeth yn anghytuno â'r rhagdybiaeth a wnaed gan rai o'r ymatebwyr y bydd y prawf yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n defnyddio tribiwnlysoedd cyflogaeth, oherwydd y cyfyngiadau amser sydd ar waith ar gyfer cyflwyno hawliad. Mae'n credu ei bod yn bosibl cael mynediad i'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi cais o fewn y terfynau amser sydd ar waith. Yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth, bydd hawliad yn cael ei ffeilio ar ôl iddo gael ei gyflwyno, cyhyd ag y bydd ffi neu gais am ddileu ffioedd wedi'i gynnwys gyda'r hawliad, er gwaethaf unrhyw gamgymeriad ynglŷn â lefel y ffi neu wrth gwblhau cais am ddileu ffioedd. Hefyd, mae'r tribiwnlysoedd cyflogaeth yn darparu llinell ymholiadau ar gyfer y cyhoedd, lle bydd staff cyswllt cwsmeriaid hyfforddedig yn gallu darparu cymorth a chyfeirio ymholiadau.
27. Mae'r llywodraeth hefyd yn bwriadu parhau i ganiatáu i'r Arglwydd Ganghellor (ar gyfer y llysoedd a thribiwnlysoedd) neu Brif Weithredwr y Goruchaf Lys, gael disgrisiwn i leihau neu ddileu ffi, pan fyddant yn fodlon bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau hynny.²

Y cap incwm misol gros

² Yn ymarferol, Rheolwyr Cyflenwi (yn hytrach na staff y llys) fydd yn gwneud penderfyniadau ar ddefnyddio'r pŵer eithriadol hwn, ac mae Prif Weithredwr Goruchaf Lys y DU yn dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i'r Cofrestrydd.

28. Bydd y llywodraeth yn cyflwyno cap incwm misol gros unigol, a bennir £4,000 dros y trothwy incwm misol gros, er mwyn gallu cael dilead llawn, fel yr amlinellir yn *Nhabl 2* isod. Mae'n anghytuno â'r awgrym a wnaed gan rai o'r ymatebwyr bod y cap incwm misol gros yn rhy isel. Bydd y cap yn targedu dileu ffioedd i'r rhai sydd ei angen fwyaf; bydd yn ystyried amgylchiadau aelwydydd ac mae wedi'i bennu ar lefel sy'n cwmpasu'r amrywiaeth eang o ffioedd sy'n daladwy mewn llysoedd a thribiwnlysoedd.³ Yn ogystal, mae'r asesiad o incwm misol gros ymgeisydd yn parhau i ystyried rhai costau tai, gofal plant, anabled, gofalwyr a phrofedigaeth, drwy ddiystyru incwm o fudd-daliadau yn y meysydd hyn (gweler **atodiad C**).

Tabl 2: Y cap incwm misol gros:

Y cap incwm misol gros gyda:	Sengl	Cwpl
Dim plant	£5,085	£5,245
1 plentyn	£5,330	£5,490
2 blentyn	£5,575	£5,735

29. Mae'r llywodraeth wedi ystyried a fyddai uchafswm incwm misol gros amrywiadwy, sy'n seiliedig ar ffi i'w thalu i'r llys neu'r tribiwnlys a ddefnyddir, yn ymarferol ac yn briodol. Nid oedd yn credu bod diwygiad o'r fath yn cyd-fynd â'r bwriad polisi y dylid gwneud yr un penderfyniad ar ddileu ffioedd ni waeth pa lys neu dribiwnlys a ddefnyddir. Er bod ffioedd yn amrywio ar draws y llysoedd a thribiwnlysoedd, bydd y raddfa symudol o gyfraniadau yn sicrhau, pan fydd ffioedd uwch yn cael eu codi, y bydd mwy o ymgeiswyr yn gymwys i gael dilead rhannol.

Tystiolaeth ar gyfer y prawf incwm misol gros

30. Bydd y llywodraeth yn lleihau'r baich cymhleth a sylweddol o ddarparu tystiolaeth sy'n bodoli mewn rhannau o'r system bresennol, er enghraifft, drwy ddileu'r prawf incwm misol net (Dilead 3), sy'n gofyn am amrywiaeth eang o dystiolaeth ddogfennol (e.e. derbyniadau meithrinfa, cytundebau tenantiaeth ac yn y blaen). O ganlyniad, bydd y prawf incwm misol gros yn symlach ac yn fwy tryloyw i ddefnyddwyr. Ceir crynodeb o'r dystiolaeth ddogfennol sydd ei hangen gan ymgeiswyr o dan y prawf incwm misol gros isod:
- Tystiolaeth ddogfennol o fudd-dal cymhwyso gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC). Mae'n rhaid i'r ddogfennaeth ddangos teitl, enw llawn, cyfeiriad a chod post yr ymgeisydd a chadarnhau bod yr ymgeisydd wedi derbyn y budd-dal. Mae'n rhaid bod dyddiad o fewn y mis diwethaf ar y ddogfennaeth, neu'r flwyddyn ariannol gyfredol ar gyfer gwarant credyd Pensiwn Credyd.

NEU

- Tri mis o gyfriflenni banc yn ogystal â'r dystiolaeth isod:

³ Ar hyn o bryd, nid oes cap incwm ar gyfer y rhai sy'n derbyn dileadau rhannol o dan Ddilead 3.

- i) **Cyflogaeth am dâl:** mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu eu slipiau cyflog gwreiddiol diweddaraf o bob un o'u swyddi.
 - ii) **Hunangyflogaeth:** mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu eu ffurflen dreth ddiweddaraf (Hunanasesiad), a naill ai eu Cyfrifiad Treth Hunanasesiad diweddaraf gan HMRC neu brawf arall o'u hincwm presennol;
 - iii) **Ffynhonnell incwm arall:** mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu math arall o ddogfennaeth os nad yw'r ffynonellau incwm eraill wedi'u rhestru ar eu cyfriflenni banc.
31. Mae'r system hon yn dibynnu ar dystiolaeth sydd fel arfer yn rhwydd i'w chanfod a bydd yn lleihau'r baich sydd ar ddefnyddwyr y system bresennol i ddarparu tystiolaeth. Mae'r llywodraeth yn anghytuno â'r awgrym a wnaed gan rai o'r ymatebwyr bod y cyfyngiadau amser llai ar gyfer cyflwyno cais yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth mor fyr, fel eu bod yn atal ymgeisydd rhag gallu cael gafael ar y dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi cais. Yn ogystal, mae'r gofyniad i ddarparu tystiolaeth ddogfennol o fudd-daliadau (gan DWP a HMRC), slipiau cyflog a gwerth tri mis o gyfriflenni banc wedi gweithredu ers nifer o flynyddoedd yn y system ffioedd bresennol, heb unrhyw broblemau arwyddocaol.
32. Mae'r llywodraeth yn cydnabod pryder rhai o'r ymatebwyr y gallai nifer fechan o ymgeiswyr brofi anhawster wrth geisio cael gafael ar y dystiolaeth angenrheidiol (er enghraifft y rhai heb gyfrifon banc neu'r rhai a allai gael anhawster i gael slipiau cyflog gan eu cyflogwr). Yn unol â'r drefn bresennol, gall staff llys neu dribiwnlys arfer eu disgresiwn, a gofyn am fathau eraill o dystiolaeth gan yr ymgeisydd yn yr amgylchiadau hyn.

Tystiolaeth i gefnogi'r prawf cyfalaf gwario a gorfodi'r prawf

33. Bydd y llywodraeth yn asesu modd aelwyd (incwm gros a chyfalaf gwario cyfunol yr ymgeisydd a'u partner) wrth ystyried cais am ddileu ffioedd. Drwy asesu modd yr aelwyd, ni fyddwn yn dileu'r ffi sy'n cael ei ariannu gan y trethdalwr i aelwydydd sydd â'r modd ariannol i dalu ffi llys neu dribiwnlys (er enghraifft, os oes gan bartner ymgeisydd swm sylweddol o incwm neu gyfalaf gwario). Os bydd y system dileu ffioedd yn asesu cyplau fel unigolion sengl, pan fyddant wedi honni bod ganddynt gyfrifon ariannol ar wahân, fel yr awgrymwyd gan rai ymatebwyr, byddai'r system dileu ffioedd yn llawer mwy costus i'r trethdalwr. Yn ogystal, mae'r llywodraeth yn cydnabod bod asesiadau ar gyfer budd-daliadau wedi'u sybsideiddio ac sy'n dibynnu ar brawf modd yn defnyddio'r prawf hwn yn aml. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol bod partneriaid, yn y mwyafrif o achosion, yn rhannu eu harian - er enghraifft, i dalu am forgais, neu filiau neu i ofalu am eu plant. Felly, mae'n rhesymol tybio bod yr ymgeisydd a'u partner ar eu hennill neu ar eu colled yn ariannol o ganlyniad i ddefnyddio llys neu dribiwnlys.
34. Ceir diffiniad o bartner yn **atodiad C**. Er eglurder, pan fydd cwpl yn gorfod byw ar wahân oherwydd eu hamgylchiadau (e.e. pan fyddant yn y lluoedd arfog, mewn cartref gofal neu yn y carchar), byddwn yn eu trin fel cwpl at ddiben cais am ddileu ffi, os bydd y berthynas yn parhau.
35. At ddibenion y prawf cyfalaf gwario, bydd y trothwyon ar gyfer pobl 61 oed a hŷn yn parhau i fod yn berthnasol pan fydd yr ymgeisydd neu eu partner yn 61 oed a hŷn.

36. Yn dilyn pryderon a godwyd gan rai ymatebwyr, mae'r llywodraeth yn dymuno egluro y bydd yr arfer presennol ar gyfer asesu modd aelwyd ar gyfer defnyddwyr y Llys Gwarchod, sy'n delio â phenderfyniadau ar gyfer pobl heb alluedd meddyliol yn parhau. Bydd ymgeiswyr yn parhau i gael eu hasesu fel unigolion sengl pan fydd:
- talwr y ffi yn 'P' (sy'n berthnasol mewn achosion eiddo a materion ariannol), neu
 - pan fydd partner ymgeisydd trydydd parti yn 'P'.

Pan fydd gan dalwr ffi trydydd parti bartner nad yw'n 'P', bydd yr ymgeisydd yn cael ei asesu fel cwpl, fel sy'n digwydd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd eraill.

Budd Gwrthwynebus

37. Mae'r llywodraeth yn bwriadu, fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, bod gan Reolwr Cyflenwi (neu'r Cofrestrwydd yng Ngoruchaf Lys y DU) ddisgresiwn i ystyried ymgeisydd fel unigolyn sengl os bydd gan eu partner fudd gwrthwynebus yn yr achos y mae'r ymgeisydd yn gwneud cais am ddileu'r ffi ar ei gyfer. Mewn achosion o'r fath, ni fyddai incwm a/neu asedau cyfalaf gwario a ddelir gan y partner, neu a ddelir ar y cyd gan y cwpwl, yn cael eu hystyried. Ymhlith y materion a fyddai'n cael eu hystyried yn berthnasol yn yr achos hwn mae:
- ysgariad, diddymiad neu ddirymu priodas;
 - ceisiadau cydnabod rhyw;
 - trais domestig; neu
 - priodasau dan orfod.

Bydd canllawiau staff yn rhoi gwybodaeth (h.y. darparu enghreifftiau) i Reolwr Cyflenwi o achosion a allai gynnwys budd gwrthwynebus; wrth gynnal eu disgresiwn i ddefnyddio'r mesur hwn.

38. Bydd y disgresiwn hwn yn berthnasol i achosion sy'n ymwneud â thrais domestig. Fodd bynnag, os ystyrir bod yr achos ei hun yn achos brys (e.e. trais domestig, gwaharddebau, troi allan neu achosion sy'n cynnwys plant) yna gall ymgeiswyr wneud ceisiadau brys (pan roddir dilead heb dystiolaeth ategol, yn amodol ar y ddealltwriaeth y bydd yn cael ei darparu'n ddiweddarach).

Ceisiadau trydydd parti

39. Bydd y llywodraeth yn defnyddio'r broses bresennol ar gyfer ceisiadau trydydd parti ym mhob llys a thribiwnlys, yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn, a'r arfer presennol yn y Llys Gwarchod, sy'n delio â phenderfyniadau ar gyfer pobl nad oes ganddynt y galluedd meddyliol o bosibl.
40. Ar hyn o bryd, pan fydd achos Llys Gwarchod yn ymwneud ag eiddo neu faterion ariannol (neu os yw'n achos hybrid) bydd cymhwyster ar gyfer dileu'r ffi yn seiliedig ar amgylchiadau ariannol (incwm gros a chyfalaf gwario) 'P', yn hytrach nac amgylchiadau ymgeisydd trydydd parti fel sy'n digwydd mewn achosion. Iechyd a lles personol. Rydym yn anghytuno â'r awgrym a wnaed gan rai o'r ymatebwyr y dylai'r un prosesau dileu ffi fod yn berthnasol mewn achosion iechyd a lles personol â'r rhai sy'n berthnasol mewn achosion eiddo a materion ariannol. Mae asesiad o fodd ariannol 'P' mewn achosion eiddo a materion ariannol yn cydnabod y gallai'r math hyn o achosion roi rheolaeth dros y materion ariannol hyn, drwy benodi ymgeisydd trydydd parti yn ddirprwy.

41. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd y Llys Gwarchod yn parhau i asesu bod yr ymgeisydd yn sengl pan fydd:
- talwr y ffi yn 'P' (sy'n berthnasol mewn achosion eiddo a materion ariannol), neu
 - partner ymgeisydd trydydd parti yn 'P'.

Pan fydd gan dalwr ffi trydydd parti bartner nad yw'n 'P', bydd yr ymgeisydd yn cael ei asesu fel cwpl, fel mewn llysoedd a thribiwnlysoedd eraill.

Ffioedd copïau o ddogfennau a ffioedd chwilio

42. Ni fydd y llywodraeth yn gwneud darpariaeth i ddileu ffioedd ar gyfer ffioedd am gopïau o ddogfennau neu ffioedd chwilio⁴ o dan y system newydd. Nid yw darparu copïau o ddogfennau a chwilio yn swyddogaeth farnwrol sy'n darparu mynediad i gyfiawnder. Mae'r ddwy swyddogaeth hyn yn darparu mynediad i gopïau ychwanegol o ddogfennau sydd eisoes wedi'u darparu i'r ymgeisydd.
43. Mewn amgylchiadau prin, pan na fydd ymgeisydd wedi derbyn copi gwreiddiol o orchymyn (e.e. nid oedd lleoliad parti yn hysbys ar y pryd), yn hytrach na dileu'r ffi, ni fyddai'r llywodraeth yn codi ffi. Bydd hyn yn berthnasol mewn amgylchiadau anodd pan na dderbyniodd ymgeisydd (neu os na all gael mynediad i'r) ddogfen wreiddiol, er enghraifft oherwydd digartrefedd neu drais domestig.
44. Rydym yn anghytuno â'r awgrym a wnaed gan rai ymatebwyr na fydd ymgeiswyr yn defnyddio llys neu dribiwnlys os na allant gael gafael ar ddogfennau perthnasol. Mae'n rhesymol disgwyl i ymgeiswyr ddefnyddiau dulliau eraill o wneud copïau o ddogfennau (e.e. siopau), sy'n aml yn rhatach, yn hytrach na disgwyl i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu gan lys neu dribiwnlys, am gost i'r trethdalwr. Ar gyfer ffioedd chwilio, bydd copïau gwreiddiol o dystysgrifau, gorchmynion neu archddyfarniad terfynol wedi'u darparu i'r partiön perthnasol. Ar gyfer ffioedd chwilio eraill nad ydynt yn berthnasol i achos (e.e. ymchwilio i achyddiaeth), nid yw'n rhesymol disgwyl i'r trethdalwr ariannu swyddogaeth anarnwrol drwy'r system dileu ffioedd, sydd â'r diben o ddiogelu mynediad i gyfiawnder.

Dileu ffioedd yn Ôl-weithredol

45. Bydd y llywodraeth yn cyflwyno terfyn amser o dri mis er mwyn galluogi ymgeiswyr i wneud cais am ddileu'r ffi (ad-daliad) ôl-weithredol, yn hytrach na'r terfyn amser o ddau fis a gynigir yn yr ymgynghoriad. Ar ôl ystyried pryderon yr ymatebwyr, mae'r llywodraeth yn derbyn, er bod y system dileu ffioedd arfaethedig wedi lleihau'r dystiolaeth y mae angen i ddefnyddwyr ei darparu a'i bod yn dibynnu ar dystiolaeth sydd fel arfer yn hawdd ei chasglu, gallai rhai ymatebwyr wynebu anawsterau penodol wrth geisio casglu tystiolaeth o fewn cyfnod o ddau fis. Mae'n credu felly bod terfyn amser o dri mis yn fwy rhesymol. Nid yw'r llywodraeth yn cytuno â'r awgrym a wnaed gan rai o'r ymatebwyr na fydd ymgeiswyr yn ddigon ymwybodol o'r system dileu ffioedd, i'w galluogi i wneud cais am ddileu'r ffi yn ôl-weithredol o fewn y terfyn amser a roddwyd. Bydd y llywodraeth yn cynhyrchu

⁴ Mae ffi dogfen copïau o ddogfennau yn daladwy gan unigolyn sy'n dymuno cael copi ychwanegol o ddogfen a ddelir gan lys neu dribiwnlys. Mae ffi chwilio yn daladwy i unigolyn sy'n dymuno cael gwybodaeth a ddelir gan lys neu dribiwnlys.

canllaw clir sy'n cyfeirio defnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd sy'n talu ffi i'r system dileu ffioedd.⁵

46. Fodd bynnag, yn y Llys Gwarchod, bydd y cyfnod amser o dri mis ar gyfer dileu'r ffi yn ôl-weithredol yn dechrau o ddyddiad y Gorchymyn Terfynol. Mae hyn yn adlewyrchu pryderon rhai o'r ymatebwyr ynglŷn ag amgylchiadau unigryw defnyddwyr y Llys Gwarchod, pan na fydd ymgeiswyr trydydd parti yn ymwybodol, neu'n gallu cael gwybodaeth am amgylchiadau ariannol "P"⁶ naill ai oherwydd eu diffyg galluedd meddyliol, neu gyfyngiadau sy'n cyfyngu ar fynediad y trydydd parti i wybodaeth ariannol 'P'. Mae hyn yn cyflwyno llawer mwy o anawsterau ymarferol wrth geisio cael gafaél ar wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais am ddileu ffioedd, o'i gymharu â llysoedd a thribiwnlysoedd eraill ac felly, mae'n galw am ddull gweithredu gwahanol, sy'n adlewyrchu'r ffaith na fydd y wybodaeth hon ar gael o bosibl nes y bydd yr achos wedi'i gwblhau ac y cyhoeddir gorchymyn terfynol.
47. Mewn achosion pan fydd yr ymgeisydd mewn sefyllfa agored i niwed, neu os na allant ddarparu tystiolaeth oherwydd amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'u hachos yn y llys neu dribiwnlys (e.e. achos tribiwnlys cyflogaeth pan na fydd cyn-gyflogwr yn barod i ddarparu slipiau cyflog), mae gan Reolwyr Cyflenwi neu Gofrestrydd Goruchaf Lys y DU y gallu i arfer eu disgresiwn o ran y dystiolaeth sy'n ofynnol, a gallant hefyd ystyried a yw amgylchiadau'r achos yn golygu y byddant yn manteisio ar allu'r Arglwydd Ganghellor neu'r Prif Weithredwr (yn UKSC) i ymestyn y terfyn amser.

Hawliadau partïon lluosog

48. Bydd y llywodraeth yn cyflwyno'r un rheolau pan gyflwynir hawliad partïon lluosog ym mhob llys a thribiwnlys. Mae'n credu ei bod yn gyson a theg i aelodau o grwpiau hawliadau partïon lluosog dderbyn yr un hawl i gael dileu'r ffi, ni waeth i ba lys neu dribiwnlys y byddant yn cyflwyno eu hawliad. Rydym yn anghytuno â'r awgrym a wnaed gan rai o'r ymatebwyr y dylid defnyddio dull gweithredu gwahanol yn y Tribiwnlys Haen-gyntaf (Siambwr Eiddo). Credwn ei bod yn deg ar yr un pryd, i ddefnyddio'r un telerau i ddefnyddwyr y tribiwnlys hwn, â'r telerau sy'n berthnasol i ddefnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd eraill. Byddwn yn cyflwyno'r safon ddiogelwch safonol ar draws pob llys a thribiwnlys, a fydd yn golygu na fydd yn rhaid i ymgeiswyr dalu mwy fel rhan o gais lluosog, na phe byddent wedi cyflwyno achos unigol.
49. Mae'r llywodraeth yn anghytuno â'r awgrym a wnaed gan rai o'r ymatebwyr bod anghysondeb neu annhegwch yn ei ddull gweithredu mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth oherwydd bod y tribiwnlysoedd hyn yn gweithredu strwythur grŵp ffioedd lluosog. Mae defnyddio strwythur grŵp ffioedd mewn tribiwnlysoedd

⁵ Roedd adroddiad 2007 PriceWaterhouseCoopers "Is the 2007 court remission system working?" (<http://web.archive.nationalarchives.gov.uk/20100111120959/http://www.justice.gov.uk/publications/docs/2007-court-fee-remission-system.pdf>) yn argymhell adolygu'r hyfforddiant a'r canllawiau a roddir i bob aelod o staff sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau dileu ffioedd. Yn dilyn yr adroddiad hwn, derbyniodd pob aelod o staff a oedd yn prosesu dileadau hyfforddiant cynhwysfawr, wedi'i ategu gan ganllawiau gwell a datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol genedlaethol.

⁶ Mewn achosion eiddo a materion ariannol a gyflwynir yn y Llys Gwarchod, mae cymhwyster ar gyfer dileu ffioedd yn seiliedig ar gyfalaf ac incwm gwario 'P' sydd heb y galluedd meddyliol.

cyflogaeth yn adlewyrchu'r nifer uwch o hawliadau lluosog yn y tribiwnlysoedd hyn, yn ogystal â'r gost ychwanegol o ddelio â hawliadau o'r fath. Gall unigolion sy'n defnyddio'r strwythur grŵp ffioedd mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth dalu ffi ostyngol fesul unigolyn, na'r hyn y byddent wedi'i dalu pe byddent wedi cyflwyno achos fel unigolyn. Hefyd, nid ydym yn cytuno bod y system arfaethedig yn gwahaniaethu yn erbyn aelodau undebau llafur. Gall unrhyw unigolyn, waeth beth yw eu haelodaeth neu ddiffyg aelodaeth ag undeb llafur, wneud cais am ddileu ffioedd mewn hawliad lluosog ac na fydd unrhyw unigolyn unigol byth yn gorfod talu mwy na'r ffi y byddent wedi'i thalu pe byddent wedi cyflwyno cais unigol.

50. Rydym yn anghytuno â'r awgrym a wnaed gan rai ymatebwyr bod y gweithdrefnau yn rhy gymhleth, neu aneglur i ymgeiswyr sy'n ceisio cael dileu'r ffi mewn hawliadau lluosog. Ar ôl i ymgeiswyr gael eu hasesu ar gyfer dileu ffioedd fel rhan o grŵp ffi parti lluosog, byddant yn cael eu hysbysu'n glir o'r ffi y bydd angen iddynt ei thalu ar gyfer pob cam o'u hachos (h.y. ffi gyhoeddi a ffi gwrandawriad).⁷ Mae'r broses apelio ar gyfer ymgeiswyr mewn grwpiau ffioedd hawlwr lluosog yr un fath â'r broses ar gyfer unrhyw ymgeisydd unigol i ddileu'r ffi (gweler atodiad **D**) a bydd wedi'i ddatgan yn glir yn y canllaw dileu ffioedd. Yn ogystal, bydd staff y llys neu dribiwnlys yn gallu cynorthwyo ymgeiswyr pan fydd angen, drwy linell gymorth ymholiadau sydd ar gael i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd cyflogaeth.

Effeithiau ar gydraddoldeb

51. Mae'r llywodraeth yn credu y bydd y system dileu ffioedd arfaethedig yn sicrhau bod y bobl hynny na allant fforddio i dalu ffi yn parhau i allu cael cyfiawnder. Mae'r cynigion ac unrhyw effeithiau dilynol yn parhau i fod yn ffordd gymesur o gyflawni nod ddilys - sicrhau bod y rhai sy'n gallu cyfrannu at gost eu ffi yn gwneud hynny, ond i'r rhai na allant dalu ffioedd, ni ddylai hyn eu hatal rhag defnyddio'r llys neu dribiwnlys oherwydd hynny.
52. Yn dilyn ein hymgyngoriad a'r newidiadau a wnaed yn sgîl yr ymgynghoriad, rydym wedi diweddarau ein gwaith modelu. O'r rhai y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, ni fydd mwy na 60% ohonynt yn gweld unrhyw effeithiau o ran cost neu gymhwyster ar gyfer dileu'r ffi. Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar 16% arall, a byddant yn cael effaith negyddol ar lai na chwarter o bobl (gweler **atodiad C** yr Asesiad o Effaith). I'r rhai y bydd y cynigion yn cael effaith negyddol arnynt, nid ydym yn credu y byddant yn creu anfantais sylweddol yn ariannol. Rydym yn ystyried y bydd y system dileu ffioedd arfaethedig yn sicrhau bod y bobl hynny na allant fforddio ffi yn parhau i allu cael mynediad at gyfiawnder.
53. Bydd y llywodraeth yn cynnal pŵer eithriadol yr Arglwydd Ganghellor i leihau neu ddileu ffioedd (neu'r Prif Weithredwr yn achos y Goruchaf Lys), ac i leihau neu ddileu'r ffi pan fyddant yn fodlon bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau iddynt wneud hynny (er enghraifft, pan fydd unigolyn wedi dioddef digwyddiad annisgwyl sy'n effeithio ar ei allu i dalu ffi).

⁷ Bydd grwpiau ffioedd hawlwr lluosog sy'n cyflwyno hawliad i'r tribiwnlys gyda'i gilydd (e.e. ar ffurflen ET1), yn parhau yn y grwpiau ffioedd ar hyd oes yr hawliad (waeth sut y bydd barnwyr yn dewis rheoli hawliad).

54. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn awgrymu nad oedd y wybodaeth a ddarparwyd ar gydraddoldeb yn ddigonol yn yr ymgynghoriad. Rydym wedi cynnwys dadansoddiad manwl yn ein dadansoddiad o gydraddoldeb (**atodiad C** yr Asesiad o Effaith) o effeithiau cydraddoldeb yn ôl nodweddion gwarchoddedig oedran, anabledd, hil a rhyw⁸. Rydym wedi ystyried y data/ffynonellau a awgrymwyd gan yr ymatebwyr. Fodd bynnag, roedd y ffynonellau data a awgrymwyd naill ai eisoes yn cael eu defnyddio (er enghraifft, data gan DWP) neu nid oeddent yn ychwanegu unrhyw wybodaeth ychwanegol y gellid ei defnyddio ar gyfer y gwaith modelu (er enghraifft, mae'r data FRS a ddefnyddir eisoes yn cynnwys manylion am lefelau incwm gwahanol unigolion).

Rhannu data electronig

55. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddai ymgeiswyr a gweinyddwyr y system dileu ffioedd yn elwa o gael cysylltiadau electronig gyda DWP a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae'r llywodraeth wedi pwysleisio mai ein nod hirdymor yw cynnal gwiriadau ar gyfer budd-daliadau cymhwys a gwybodaeth arall am ymgeiswyr yn electronig, gan leihau swm y dystiolaeth y bydd angen i ddefnyddwyr ei darparu er mwyn derbyn dilead ffi. Mae'r Ddeddf Troseddau a Llysoedd, is-gymal 28⁹ (i'w gyflwyno), yn galluogi proses rhannu gwybodaeth rhwng y Weinyddiaeth Cyfiawnder, DWP a Chyllid a Thollau EM at ddibenion penderfynu ar gymhwyster ar gyfer cais am ddileu ffioedd. Byddwn yn parhau i ystyried yr opsiynau ar gyfer cyflwyno system TG i gyflawni'r ateb hwn.

Carcharorion

56. Nid oedd yr ymgynghoriad yn nodi yn benodol sut y byddai'r diwygiadau yn berthnasol i garcharorion sy'n gwneud cais am ddileu ffioedd (gallai carcharorion sy'n cyflwyno achos nad yw'n achos troseddol mewn llys neu dribiwnlys fod yn gymwys i gael dileu'r ffi).¹⁰ Roedd y llywodraeth wedi ymgynghori ar y sail y byddai'r cynigion yn berthnasol ym mhob llys a thribiwnlys ac felly byddant yn berthnasol hefyd i garcharorion a'u partneriaid.

⁸ Nid oes unrhyw ddata ar gael i fodlu effeithiau cydraddoldeb y cynigion ar nodweddion gwarchoddedig ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred neu gyfeiriadedd rhywiol.

⁹ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/22/section/28/enacted>

¹⁰ Yn y system bresennol, mae carcharorion yn gymwys i wneud cais o dan Ddilead 3 (y prawf incwm gwario) ac am resymau ymarferol, nid ydynt yn derbyn yr un lwfansau ag ymgeiswyr eraill (e.e. costau byw cyffredinol).

Casgliad a'r camau nesaf

1. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi cael eu hystyried yn llawn ac maent wedi arwain at y newidiadau polisi a gyflwynir yn y ddogfen hon. Yn gwyno, y newidiadau hyn yw:
 - Diwygio'r prawf cyfalaf gwario i gynnwys mwy o drothwyon a darparu trothwy gwahanol ar gyfer pobl 61 a hŷn;
 - Diwygio ac egluro telerau'r prawf cyfalaf gwario;
 - Ychwanegu mwy o fudd-daliadau sydd wedi'u heithrio o dan y prawf incwm misol gros;
 - Newid y cyfnod o amser a ganiateir i wneud cais am ddileu ffi yn ôl-weithredol i dri mis yn hytrach na dau fis
 - Defnyddio'r un prawf meini prawf ar gyfer carcharorion a'u partneriaid.

2. Mae'r llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r newidiadau drwy Offeryn Statudol erbyn mis Hydref 2013.

Atodiad A: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cyflwyniad

1. Mae'r adran hon yn darparu dadansoddiad manwl o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r cynigion i ddiwygio a gyflwynwyd yn y papur ymgynghori.
2. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 16eg Mai 2013 ac fe wnaethom dderbyn 64 o ymatebion. Roedd y rhain yn cynnwys 15 gan gyrff cynrychioliadol, 11 gan gyrff cyfreithiol, 10 gan undebau llafur, 8 gan gyrff cyhoeddus, 8 gan unigolion, 5 gan gyrff gwirfoddol, 4 gan gyrff barnwrol a 3 gan grwpiau busnes. Mae rhestr o'r ymatebwyr ar gael yn **atodiad B**.

1. Un system dileu ffioedd

3. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig un system dileu ffioedd i ddefnyddwyr pob llys a weithredir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), Goruchaf Lys y Du a thribiwnlysoedd talu ffioedd ¹¹, ac eithrio'r Tribiwnlys Haenyntaf (Siambr Lloches a Mewnfudo). Ar hyn o bryd, mae cymhwysedd ar gyfer dileu ffioedd yn amrywio rhwng llysoedd a thribiwnlysoedd.
4. Roedd y llywodraeth yn dadlau y byddai un system dileu ffioedd yn haws i ddefnyddwyr ei deall a'i defnyddio. Byddai hefyd yn helpu i ysgogi mwy o effeithlonrwydd a chysondeb wrth weinyddu'r system dileu ffioedd, oherwydd byddai penderfyniadau ar hawl i dderbyn dileadau yn cael eu gwneud ar yr un sail i bawb, waeth beth yw natur y llys neu dribiwnlys sy'n codi'r ffi. Byddai'r hawl i gael dileu'r ffi ond yn seiliedig ar allu'r ymgeisydd i fforddio'r ffi. Gofynnwyd un cwestiwn ar yr egwyddor o un system.

Cwestiwn 1 - A ydych yn cytuno mai dim ond un system ddileu ffioedd ddylai gael ei gweithredu yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd sy'n cael eu gweithredu gan GLITEM ac yng Ngoruchaf Lys y DU? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

5. Derbyniwyd 52 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 32 o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cyflwyno un system dileu ffioedd ar gyfer pob llys a thribiwnlys. Roedd 10 o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig, ac ni roddodd 10 ymatebwr farn bendant

¹¹ Llysoedd Sifil (Cymru a Lloegr), Llysoedd Teulu (Cymru a Lloegr), Llysoedd Ynadon (Cymru a Lloegr), Llys Gwarchod (Cymru a Lloegr), Gwasanaethau Prawf (Cymru a Lloegr), Yr Uchel Lys (Cymru a Lloegr), Y Llys Apêl (Cymru a Lloegr), Goruchaf Lys y DU (DU), Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth (Cymru, Lloegr a'r Alban), Apeliadau Gamblo (Cymru, Lloegr a'r Alban), Siambr Eiddo (Lloegr), Uwch Dribiwnlys (Siambr Tir) (Cymru a Lloegr), Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) (Achosion Adolygiad Barnwrol yn Unig), a'r Panel Cydnabod Rhyw (DU).

(nid oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig). Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion o'r farn y byddai:

- Un system yn fwy tryloyw, yn haws i ddefnyddwyr ei deall ac yn decach;
- Byddai'r cynigion yn symleiddio prosesau gweinyddol ac yn fwy cost effeithiol; a
- Dylid defnyddio proses rhannu data yn electronig pryd bynnag y bo'n bosibl

6. Er enghraifft, dywedodd un corff cynrychioli cyfreithiol:

“Bydd hyn yn helpu i greu mwy o dryloywder, oherwydd ni fydd angen i aelodau'r cyhoedd geisio diwallu meini prawf cymhwyster gwahanol ar gyfer gwahanol lysoedd a thribiwnlysoedd. Bydd hyn helpu i wella dealltwriaeth y cyhoedd o argaeledd y cynllun dileu ffioedd. Bydd yn system decach i ddefnyddwyr y gwahanol lysoedd a thribiwnlysoedd oherwydd bydd argaeledd a lefel y dileadau yn gyfartal yn y dyfodol. Rydym yn croesawu, er enghraifft, y defnyddir system dileu ffioedd pari passu¹² ar gyfer cyflwyno ffioedd yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r tribiwnlysoedd apêl cyflogaeth. Bydd yn symlach yn weinyddol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, oherwydd bydd un system dileu ffioedd ar waith yn hytrach na nifer o systemau gwahanol.”

7. Dywedodd un corff busnes cynrychioliadol:

“Rydym yn cytuno â hyn. Bydd yn creu system symlach i'r rhai sy'n defnyddio a'r rhai sy'n gweinyddu'r system dileu ffioedd a ddylai arwain at fwy o effeithlonrwydd a chysondeb gweinyddol yn y pen draw.”

8. Roedd y 10 ymatebwr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dadlau:

- Na fyddai un system yn gallu mynd i'r afael yn ddigonol â nodweddion neu amgylchiadau amrywiol y defnyddwyr, yn arbennig mewn rhai tribiwnlysoedd penodol;
- Byddai'r cynigion yn cael effaith anghymesur ar ddefnyddwyr rhai llysoedd a thribiwnlysoedd; a
- Dylid eithrio rhai llysoedd a thribiwnlysoedd o'r un system arfaethedig o ddileu ffioedd; sef y tribiwnlysoedd cyflogaeth, y Panel Cydnabod Rhyw a'r Llys Gwarchod.

9. Er enghraifft, dywedodd un undeb lafur:

“Mae'r undeb yn cydnabod y byddai cyflwyno un cynllun dileu ffioedd yn symleiddio ac yn lleihau costau gweinyddol y ffioedd a'r system dileu ffioedd. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod natur hawliadau a nodweddion yr hawlwr yn amrywio'n fawr ar draws y system llysoedd a thribiwnlysoedd. Yn ein barn ni, ni fydd y dull gweithredu unffurf arfaethedig ar gyfer dileu ffioedd yn ddigon hyblyg i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf am ddileu ffioedd.”

¹² Mae 'Pari passu' yn ymadrodd Lladin sy'n golygu “gyda cham cyfartal” neu “ar delerau cyfartal”

10. Dywedodd un corff gwirfoddol:

“Er mwyn targedu pobl yn effeithiol, mae angen i'r llysoedd/tribiwnlysoedd allu cydnabod gwahaniaethau a bod gan rai grwpiau anghenion penodol, ac mae hyn yn amlwg o ran y gymuned drawsryweddol, y gallai'r newidiadau hyn gael effaith anghymesur arnynt.”

2. Cymhwyster ariannol i gael dileu'r ffi

11. Mae'r system arfaethedig yn seiliedig ar ddau brawf penodol. Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd basio'r ddau brawf er mwyn bod yn gymwys i gael dileu'r ffi:
- Bydd y prawf cyntaf yn penderfynu a yw ymgeisydd yn gymwys ai peidio i gael dileu'r ffi, yn seiliedig ar asesiad o gyfalaf gwario eu haelwyd¹³ cyfalaf gwario (e.e. cynilion a buddsoddiadau). Ni fydd ymgeiswyr â chyfalaf gwario sydd dros drothwy penodol yn gymwys i gael dileu'r ffi; a
 - Bydd yr ail brawf yn ystyried a fydd ymgeisydd sydd wedi pasio prawf cyfalaf gwario yn derbyn hepgoriad llawn, yn talu cyfraniad at eu ffi neu'n talu'r ffi yn llawn. Rhoddir hepgoriad llawn os gall ymgeisydd brofi bod incwm eu haelwyd yn is na throthwy penodol. Os bydd eu hincwm yn uwch na'r trothwy, byddai'n rhaid i'r ymgeisydd dalu cyfraniad at y ffi, ond nid mwy na gwerth y ffi, yn seiliedig ar ganran eu hincwm sydd dros y trothwy. Bydd ffi lawn yn daladwy pan fydd eu hincwm yn uwch na'r trothwy, o swm penodol.

Prawf cyfalaf gwario

12. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig cyflwyno prawf cyfalaf gwario. Ar gyfer ffioedd hyd at £1000, mae'r dilead yn gyfyngedig i'r ymgeiswyr hynny y mae cyfalaf gwario eu haelwyd yn llai na £3,000. Ar gyfer ffioedd rhwng £1001 a £4000, mae'r dilead wedi'i gyfyngu i'r ymgeiswyr hynny y mae cyfalaf gwario eu haelwyd yn llai nac £8,000. Mewn achosion prin, pan allai'r ffi fod yn fwy na £4000, byddai'r ffi ond yn daladwy pan fyddai gan ymgeisydd gyfalaf gwario o £16,000 neu fwy.

Ffi o:	Trothwy cyfalaf gwario:
Hyd at £1,000	£3,000
Hyd at £4,000	£8,000
Dros £4,000	£16,000

13. Roedd y llywodraeth yn dadlau, nad oedd unrhyw un o'r systemau dileu ffioedd a oedd yn weithredol ar hyn o bryd yn ystyried cyfalaf gwario ymgeiswyr sy'n gwneud cais i ddileu'r ffi. Gallai hyn olygu y gallai ymgeisydd sydd, er enghraifft, ar incwm isel ond sydd â chynilion sylweddol, gael dileu'r ffi. Mae'r llywodraeth yn

¹³ Aelwyd yw [unigolyn](#) sengl neu gwpl

credu nad yw'n briodol cyfeirio cyllid y trethdalwyr at y bobl hynny sydd â'r modd ariannol i dalu ffi.

14. Roedd yr ymgynghoriad yn awyddus i dderbyn sylwadau ar y cwestiwn a ddylid ystyried cyfalaf gwario wrth ystyried cymhwyster i gael dileu'r ffi, ac a oedd y terfynau, y telerau a'r gofynion tystiolaeth / dulliau gorfodi arfaethedig yn briodol. Fe wnaethom ofyn pedwar cwestiwn.

Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno y dylid ystyried cyfalaf gwario wrth benderfynu ar gymhwyster pobl i gael dileu'r ffi? Nodwch y rheswm/rhesymau dros eich ateb.

15. Derbyniwyd 49 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 21 yn cytuno â chyflwyno prawf cyfalaf gwario, roedd 19 yn anghytuno ac ni roddodd 9 ymatebwyr farn bendant.
16. Roedd y rhai a oedd yn cytuno â hyn yn credu ei bod yn annheg iawn bod pobl â chynilion sylweddol yn gallu cael dileu'r ffi. Roeddent hefyd o'r farn bod y prawf yn deg ac yn gymharol syml. Er enghraifft, derbyniwyd y sylwadau canlynol gan gyrrff cynrychioli:
- “Dylai pobl sydd â'r gallu ariannol i dalu, alluogi'r rhai â llai o arian i dderbyn cymorth drwy'r system dileu ffioedd”
- “Ni all fod yn iawn y gall unigolyn, o dan y system bresennol, heb incwm rheolaidd, ond sydd â chynilion a chyfalaf gwario sylweddol, gael eu heithrio o system ffioedd y tribiwnlysoedd cyflogaeth”
17. Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dadlau:
- Y byddai'r cynnig yn cosbi cynilwyr, yn arbennig pobl hŷn ag anghenion gofal;
 - Y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n defnyddio rhai tribiwnlysoedd penodol, yn bennaf y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Panel Cydnabod Rhyw; a
 - Efallai na fydd defnyddwyr tribiwnlysoedd cyflogaeth, sydd â chyfyngiadau amser byrrach, yn gallu cael gafael ar eu cyfalaf gwario.
18. Er enghraifft, dywedodd un undeb llafur:
- “Mae'n briodol ystyried cyfalaf, fodd bynnag, rydym yn bryderus iawn y bydd y system arfaethedig yn golygu na fydd llawer o bobl yn gallu cael mynediad at gyfiawnder. Mae gennym bryderon penodol ynglŷn â'r cyswllt rhwng y darpariaethau hyn â'r system dileu ffioedd ar gyfer hawliadau'r Tribiwnlys Cyflogaeth: yn y mwyafrif o awdurdodaethau eraill, mae gan ymgeiswyr gyfnod hir o amser (rhwng tair a chwe blynedd fel arfer) i gyflwyno hawliad, sy'n rhoi amser iddynt drosi asedau cyfalaf gwario yn arian parod er mwyn talu ffioedd a chostau cyfreithiol cysylltiedig. Fodd bynnag, dim ond cyfnod o dri mis sydd ar gael mewn achosion Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, ac nid yw hyn yn gadael llawer o amser, os o gwbl, i hawlydd gael gafael ar yr ased hwnnw.”
19. Dywedodd un corff cyfreithiol:

“Ein pryder penodol ni yw pobl hŷn a phobl agored i niwed ac, oherwydd hyn, er y gallwn weld y synnwyr o ystyried cyfalaf gwario, mae angen darparu canllaw penodol mewn achosion sy'n cynnwys y Llys Gwarchod. Mae pobl hŷn yn aml yn dibynnu ar eu cyfalaf i gefnogi incwm pitw a gwariant uwch am ofal a materion eraill cysylltiedig. Felly, byddem yn dadlau y bydd ystyried cyfalaf gwario yn cael effaith ar y grŵp hwn yn benodol.”

**Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno â'r terfynau cyfalaf gwario arfaethedig.
Rhowch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb**

20. Derbyniwyd 51 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 40 o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r terfynau cyfalaf gwario arfaethedig, roedd 7 yn cytuno â'r terfynau arfaethedig, ac ni roddodd 4 ymatebwr farn bendant. Dywedodd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynigion:
- Bod y terfynau cyfalaf arfaethedig yn rhesymol, clir a chryno;
 - Y bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr tribiwnlysoedd yn talu ffioedd sy'n llawer is na £1000; a
 - Dylai ymgeiswyr ystyried cost a chryfder eu hachos.
21. Er enghraifft, dywedodd un corff cynrychioli:
- “Mae'r terfynau cyfalaf gwario arfaethedig yn ymddangos yn rhesymol, o ystyried y ffaith na fyddai'r rhan fwyaf o ymgyfreithwyr o reidrwydd yn cronni ffioedd Llys mor uchel â £1,000.00 neu fwy, fel yr oedd rhai sylwadau yn y papur yn datgan.”
22. Dywedodd un corff gwirfoddol a dau gorff cyhoeddus:
- “Rydym yn cytuno. Dylai pobl orfod ystyried y gost o gynnal achos llys a dylent fod yn gymharol sicr bod ganddynt achos.”
- “Mae'n glir a chryno ac yn berthnasol i swm y ffi.”
- “Mae'r cynigion yn ymddangos yn gytbwys a rhesymol.”
23. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dadlau:
- Bod y terfynau cyfalaf gwario arfaethedig yn rhy isel;
 - Y gallai'r cynnig fod yn rhwystr posibl i gael mynediad at gyfiawnder;
 - Dylai'r terfynau cyfalaf gwario adlewyrchu'r rhai a ddefnyddir gan y cymorth cyfreithiol sifil neu fudd-daliadau.
 - Y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n defnyddio rhai tribiwnlysoedd, yn bennaf y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Panel Cydnabod Rhyw, a'r Llys Gwarchod.
24. Er enghraifft, dywedodd un corff cyfreithiol cynrychioliadol:
- “Cawsom ein synnu gan y ffaith bod y cais yn datgan y byddai'n rhaid i unigolyn sydd â dim ond £3000 yn y banc, dalu hyd at uchafswm o £1000 mewn ffioedd llys. Gallai traean o gynilion yr unigolyn hwn ddiflannu fel ffioedd llys. Byddai disgwyl i berson ag £8000 o asedau cyfalaf dalu hyd at hanner eu cynilion ar

ffioedd llys. Nid yw hyn yn briodol nac yn deg. Y dyddiau hyn, nid yw £3000 yn swm uchel i dalu am argyfyngau a gofynion eraill a allai godi a fyddai'n golygu defnyddio'r cyfalaf. Mae'n sicr y byddai'r gost hon yn atal pobl rhag ceisio cyfiawnder.”

25. Dywedodd un corff gwirfoddol:

“Mae'n ymddangos yn anghymesur iawn i ni, bod yn rhaid i bobl sydd ar incwm lefel budd-daliadau sydd â lefelau isel o gynilion, ddefnyddio cyfran mor uchel o'u cyfalaf i ariannu ffioedd y llys. Hyd yn oed os yw'r rheolau budd-daliadau yn derbyn y dylid diystyru cyfalaf o dan £6,000, yna dylai terfynau cyfalaf dileu ffioedd y llysoedd o leiaf adlewyrchu'r rheolau budd-daliadau. Ni allwn osgoi ystyried y cynnig hwn fel erydiad o allu'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas i gael mynediad at gyfiawnder, a byddwn yn croesawu ailystyriaeth.”

26. Nodwyd hefyd bod y bwllch mawr rhwng y trothwyon wedi creu rhywfaint o annhegwch. Er enghraifft, ni fyddai unigolyn sy'n gorfod talu ffi o £950, sydd â chynilion o £3000, yn cael dilead, tra byddai unigolyn sy'n gorfod talu ffi o £1050, sydd â chynilion o £4000, cael dileu'r ffi (yn amodol ar y prawf incwm).

Cwestiwn 4 - Ydych chi'n cytuno â thelerau arfaethedig y prawf cyfalaf gwario? Rhowch eich rheswm/rhesymau dros eich atebion.

27. Derbyniwyd 48 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 28 yn anghytuno â thelerau arfaethedig y prawf cyfalaf. Roedd 13 yn cytuno â'r telerau, ac ni roddodd 7 ymatebwr farn bendant. Dywedodd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion:

- roedd y prawf yn glir a thryloyw i ddefnyddwyr a staff; a
- roedd telerau'r prawf yn rhesymol a theg.

28. Er enghraifft, dywedodd un corff gwirfoddol:

“Byddai fersiwn mwy syml o'r prawf o'r hyn sy'n cynrychioli cyfalaf gwario sy'n berthnasol ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil yn dderbyniol. Dylai fod yn haws i ymgeiswyr a staff ei ddeall.”

29. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion yn dadlau:

- y dylid diystyru taliadau sy'n gysylltiedig â dileu swydd¹⁴ o'r prawf cyfalaf gwario;
- ei bod yn anghyson cynnwys taliadau dileu swydd yn y prawf cyfalaf gwario, ond bod taliadau diswyddo annheg yn cael eu hanwybyddu;
- y gallai pobl sy'n derbyn taliadau dileu swyddi gyflwyno hawliadau diswyddo annheg yn ddiweddarach;
- y gallai cyflogwyr roi taliad dileu swydd o fwy na £3000, yn fwriadol, er mwyn atal cyn-gyflogai rhag cael ei ffioedd wedi'u dileu mewn tribiwnlys cyflogaeth;

¹⁴ Er enghraifft: taliadau dileu swydd statudol, taliadau dileu swydd anstatudol, talu cyflog yn lle rhybudd, a thaliad gwyliau dyledus / taliadau amser yn lle gwyliau.

- bod y cynigion yn cael effaith anghymesur ar bobl dros 60 oed, am na allant adennill y cyfalaf a derbyn taliadau dileu swydd uwch; a
 - bod angen eglurhad o ran y cyfalaf y mae dau berson yn berchen arno, a chyfalaf y mae partner yn berchen arno.
30. Er enghraifft, dywedodd un corff cyfreithiol cynrychioliadol:
- “Nid yw'n glir pam fod taliadau dileu swydd yn cael eu trin fel cyfalaf gwario, ond nid taliadau diswyddo annheg, o ystyried bod y ddau fath o daliad wedi'u cynllunio i liniaru effaith diweithdra. Nid yw'n glir i [ni] sut y gellir gwahaniaethu rhwng y taliadau hyn. Bydd angen darparu canllaw clir i hawlwyd, er mwyn sicrhau bod arian a dderbynnir gan gyflogwyr ar ôl terfynu cyflogaeth, yn cael ei gynnwys yn briodol neu ei eithrio'n briodol o gyfalaf gwario.”
31. Dywedodd un corff barnwrol:
- “...mae yna bryder ynglŷn â'r ffaith bod cyfalaf y mae dau berson yn berchen arno yn cael ei drin fel cyfalaf gwario. Tybir y bydd hyn ond yn cael ei drin fel cyfalaf gwario i'r graddau y mae'r cyfalaf yn perthyn i'r sawl sy'n gwneud y cais. Er enghraifft.....mewn cysylltiad ag ail gartref, beth os yw'r unigolyn yn berchen ar yr ail gartref gyda grŵp o unigolion eraill (e.e. grŵp o ffrindiau sy'n dod at ei gilydd i brynu bwthyn gwyliau)?”
32. Dywedodd corff cyfreithiol gwirfoddol:
- “Rydym yn anghytuno â'r syniad o ddileu'r diystyriad i bensiynwyr. Mae pensiynwyr yn cael eu cosbi am gynilo yn ystod eu bywydau gwaith drwy'r diystyriad hwn, a bydd ganddynt lai o gyfle i adnewyddu eu cynilion o gymharu â'r rheini o oedran gwaith sy'n gwneud cais am ddileu ffioedd. Oherwydd bod cynlluniau pensiwn galwedigaethol a chynlluniau pensiwn personol yn cael eu hanwybyddu, mae dileu'r diystyriad hwn yn swnio'n fympwyol, oherwydd bod pensiynwyr sydd wedi defnyddio pensiwn yn cael mwy o ffafriaeth na'r rhai heb pensiwn.”

Tystiolaeth i gefnogi'r prawf cyfalaf gwario a gorfodi'r prawf

33. Wrth geisio llunio prawf syml a thryloyw, nad yw'n feichus i'r ymgeiswyr na'r staff, rydym yn cynnig y dylai ymgeiswyr ddatgan gwerth cyfalaf gwario eu haelwyd drwy 'ddatganiad gwirionedd' ar y ffurflen gwneud cais am ddileu ffioedd. Mewn achosion lle bydd amheuaeth, byddai gan Reolwr Llys neu Dribiwnlys ddisgresiwn i ofyn am dystiolaeth ddogfennol o gyfalaf gwario gan yr ymgeisydd. Os canfyddir bod rhywun wedi rhoi gwybodaeth anghywir ar y ffurflen gwneud cais am ddileu ffioedd, bydd y parti hwnnw yn gorfod talu'r ffi.

Cwestiwn 5 - Ydych chi'n cytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer tystiolaeth a gorfodi'r prawf cyfalaf? Rhowch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb.

34. Derbyniwyd 44 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 17 o ymatebwyr yn cytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer tystiolaeth a gorfodi'r prawf cyfalaf. Roedd 17 yn anghytuno â'r cynigion, ac ni roddodd 10 ymatebwr farn bendant. Dywedodd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion:

- Bod datganiad gwirionedd yn ddigonol ac yn gymesur i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr;
 - Mewn nifer fach o achosion lle ceir amheuaeth, gellir defnyddio disgrisiwn i ofyn am dystiolaeth bellach; a
 - Mae'r datganiad gwirionedd yn sicrhau bod y system dileu ffioedd yn syml i'w gweinyddu.
35. Er enghraifft, dywedodd un corff cyfreithiol/barnwrol cynrychioliadol:
“Bydd datganiad syml gan yr ymgeisydd yn ddigonol yn y rhan fwyaf o achosion. Mae cynnal disgrisiwn i ofyn am dystiolaeth bellach yn cynnal ymagwedd gymesur.”
36. Dywedodd un undeb llafur:
“Mae ‘datganiad gwirionedd’ i ddatgan gwerth incwm gwario gystal ag unrhyw system, hyd yn oed - fel mae'r asesiad o effaith yn cydnabod - gallai'r canlyniad olygu gostyngiad o 60% mewn arbedion disgwylidig. Dylai unrhyw system dileu ffioedd fod yn hawdd ei gweinyddu.”
37. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion yn dadlau:
- Na fyddai'r gosb arfaethedig yn atal ymgeiswyr rhag gwneud datganiadau ffug;
 - Y dylid cyflwyno cosb ariannol neu droseddol er mwyn atal pobl rhag gwneud hynny;
 - Efallai nad yw ymgeiswyr yn ymwybodol o gyfalaf gwario eu partneriaid (yn arbennig mewn sefyllfaoedd domestig anodd - e.e. cam-drin domestig); a
 - Ni ddylai ymgeiswyr â sgiliau llythrennedd neu rifedd gwael fod yn gyfrifol am gyhoeddi eu cyfalaf.
38. Er enghraifft, dywedodd un corff busnes cynrychioliadol:
“Mae effeithiolrwydd y prawf cyfalaf newydd yn dibynnu ar gywirdeb ‘datganiad gwirionedd’ a wneir gan unigolyn sy'n gwneud cais am ddileu ffioedd. Er bod y dull gweithredu hwn wedi'i gynnig gyda'r bwriad o sicrhau bod y system dileu ffioedd yn syml, mae [ein] haelodau yn poeni bod y system yn rhy agored i gael ei chamddefnyddio gan y rhai sy'n benderfynol o dwyllo'r system.....Mae angen rhywbeth i atal sefyllfa pan fydd datganiad ffug yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniad ar gyfer hawlwy'r.”
39. Dywedodd un undeb llafur:
“Mae'r [undeb] yn poeni, yn absenoldeb cyngor a chanllawiau manwl i gyd-fynd â'r datganiad, y bydd y cynnig hwn yn rhoi gormod o faich ar ddarpar ymgeiswyr, yn arbennig y rhai â lefelau Saesneg cyfyngedig, os o gwbl, a fydd yn anorfod yn cael anhawster i ddeall y 'prawf' a'r rheolau cymhleth sy'n llywodraethu dileu ffioedd yn gyffredinol.”

Prawf Incwm – Dilead llawn a dilead rhannol

40. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig ail prawf, sy'n ystyried a fydd ymgeisydd sydd wedi pasio'r prawf cyfalaf gwario yn cael dileu'r ffi llawn, yn talu cyfraniad at eu ffi

neu'n talu'r ffi yn llawn. O dan yr elfen dilead llawn, cynigir trothwyon incwm misol gros ar gyfer pobl sengl a chyplau, gyda lwfans ychwanegol yn cael ei ychwanegu ar gyfer pob plentyn dibynnol:

41. Y trothwyon incwm arfaethedig:

Incwm misol gros gyda:	Sengl	Cwpl
Dim plant	£1,085	£1,245
1 plentyn	£1,330	£1,490
2 blentyn	£1,575	£1,735
Ychwanegwch £245 am bob plentyn ychwanegol		

42. Roedd y Llywodraeth yn cynnig derbyn rhai budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd fel tystiolaeth bod incwm cais yn is na'r trothwy incwm perthnasol, ac y bydd gan yr hawlydd hawl awtomatig i dderbyn dilead llawn (h.y. wedi'i basportio), os byddant hefyd yn pasio'r prawf cyfalaf. Roedd y Llywodraeth yn cynnig na fyddai pobl sy'n derbyn 'Credyd Treth Gwaith nad ydynt hefyd yn derbyn Credyd Treth Plant' yn cael eu pasbortio yn awtomatig mwyach drwy'r prawf incwm ar y sail hon. Cynigiwyd hefyd y byddai rhai pobl sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yn cael eu 'pasbortio' drwy'r prawf incwm, yn amodol ar y penderfyniad a wneir gan y Llywodraeth ar y lefel briodol o Gredyd Cynhwysol (Defnyddiwyd 'Credyd Cynhwysol' gydag enillion o lai na £6000' fel enghraifft yn yr ymgynghoriad).
43. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn awgrymu y dylid symleiddio'r fformiwla ar gyfer cyfrifo cymhwyster ar gyfer dilead rhannol, drwy ddisodli prawf Dilead 3 gyda'r un trothwyon incwm misol gros a ddefnyddir i asesu hawl i gael dilead llawn. Byddai disgwyl i bobl ag incwm uwchlaw'r trothwyon penodedig dalu cyfraniad o £5 am bob £10 ychwanegol o incwm uwchlaw'r trothwy.
44. Yn olaf, roedd y Llywodraeth yn cynnig cyflwyno 'cap' incwm misol gros, er mwyn sicrhau na fydd pobl sydd ag incwm o fwy na £4000 dros y trothwyon penodedig ar gyfer dilead llawn yn gymwys i gael dilead rhannol, ac y byddai'n rhaid iddynt dalu'r ffi llawn. Fe wnaethom holi'r ymatebwyr a ddylai'r 'cap' incwm fod yn unigol neu'n amrywiadwy yn ôl y ffi i'w thalu.
45. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i'r ymatebwyr a oedd y prawf incwm yn targedu'r bobl gywir, a oedd yn syml ac yn ymarferol; a ddylem gyflwyno 'cap' incwm misol gros ac a oedd gofynion tystiolaeth y prawf incwm yn briodol. Fe wnaethom ofyn tri chwestiwn.

Cwestiwn 6 - Ydych chi'n cytuno bod y cynigion hyn yn gytbwys o ran targedu cymhwyster ar gyfer dilead llawn a rhannol drwy system syml ac ymarferol? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam, a pha syniadau eraill y byddech chi'n eu cynnig.

46. Derbyniwyd 55 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 37 o'r ymatebwyr yn anghytuno bod y cynigion yn gytbwys. Roedd 12 yn cytuno â'r cynigion, ac ni roddodd 6 ymatebwr farn bendant. Dywedodd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion:

- Bod y profion incwm presennol yn rhy gymhleth, a'u bod yn rhoi gormod o faich ar ddefnyddwyr o staff o ran tystiolaeth; a
 - Bod y prawf incwm arfaethedig yn ffordd syml a chlir o benderfynu ar gymhwyster i gael dileu'r ffi.
47. Er enghraifft, dywedodd un corff cyfreithiol cynrychioliadol:
- “Rydym yn derbyn y bydd yn rhaid i unrhyw gynllun dileu ffioedd fod yn gysylltiedig ag incwm. Mae'n rhaid i'r broses ar gyfer asesu incwm er mwyn penderfynu ar ddilead llawn neu rannol fod yn broses syml. Fel yr oedd y papur ymgynghori yn cydnabod, mae'r broses gyfredol ar gyfer asesu dilead rhannol yn rhy gymhleth a beichus. Byddem yn cefnogi'r defnydd o drothwyon incwm misol gros i asesu hawl i gael dilead llawn a rhannol.”
48. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion yn dadlau:
- Nad oedd y cynigion yn targedu cymhwyster yn gywir ar gyfer dilead llawn a rhannol;
 - Mae'r trothwyon incwm misol gros yn rhy isel;
 - Mae'r asesiad o incwm misol gros (yn hytrach nac incwm misol net) yn rhwystro posibl i fynediad i gyfiawnder;
 - Nid yw'r defnydd o drothwyon misol gros yn ystyried costau tai, gofal plant a chostau eraill yn ddigonol;
 - Bydd hyn yn cael effaith anghymesur ar ddefnyddwyr tribiwnlysoedd cyflogaeth;
 - Dylai pawb sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gael eu pasbortio'n awtomatig i gael dileu'r ffi yn llawn.
49. Er enghraifft, dywedodd un undeb llafur:
- “Rydym hefyd o'r farn bod y terfyn incwm isel, nad yw'n llawer uwch na'r isafswm cyflog cenedlaethol, ynghyd â'r methiant i ystyried incwm gwario, yn creu problemau ac y bydd yn arwain at annhegwch eithriadol yn y system ac yn atal mynediad i gyfiawnder i bobl ag incwm cyfyngedig. Gallai alldaliadau dilys a chwbl angenrheidiol rhai unigolion achosi i'w hincwm gwario fod ar lefelau mor isel, fel y dylent fod yn gymwys i gael dileu'r ffi. Ni fydd y ffactor hwn yn cael ei gydnabod o dan y cynigion presennol ar gyfer asesu incwm. Rydym yn credu y byddai cyflwyno terfyn incwm sydd o leiaf yn cyfateb â chyflog teg yn llawer tecach”
50. Dywedodd un corff cyfreithiol cynrychioliadol:
- “Rydym yn credu y byddai prawf incwm gros yn annheg.....Yn arbennig, rydym yn credu y dylai unrhyw asesiad o incwm ystyried costau tai a chostau gofal plant sy'n gysylltiedig â gwaith. Os na fydd y costau hyn yn cael eu diystyru ar gyfer ceisiadau i ddileu ffioedd, byddai'n annheg i'r rhai sy'n byw mewn rhannau o'r wlad lle mae prinder tai a lle mae'n ddrutach i rieni sy'n gweithio. Bydd mamau sengl yn arbennig o dan anfantais benodol a sylweddol pe na fyddai costau gofal plant yn cael eu hystyried.”

51. Dywedodd un undeb llafur arall:

“Nid ydym yn credu bod yr ymgynghoriad hwn yn darparu digon o wybodaeth ar y broses a fydd yn cael ei chyflwyno, ac effaith y broses hon ar faterion eraill y mae ymgeiswyr yn gorfod eu hystyried mewn cyfnod o amser cyfyngedig iawn....Credwn y gallai unigolion, yn arbennig unigolion sy'n cyflwyno ceisiadau, heb unrhyw fai eu hunain, fethu â darparu'r gofynion tystiolaeth, methu â gwneud cais am ddileu ffioedd neu hwyrach anghofio llofnodi'r siec ar gyfer y ffi briodol. Gallai unrhyw rhai o'r rhain arwain at atal cais pe byddai'n rhaid dychwelyd y cais i'r hawlydd ac yna ei ail-gyflwyno. Gallai hyn arwain at ddileu'r cais.”

Cwestiwn 7 - Ydych chi'n cytuno y dylid cyflwyno cap incwm misol gros er mwyn sicrhau nad yw pobl gyda lefel benodol o incwm yn gymwys i gael dilead rhannol, ac y byddai'n rhaid iddynt dalu'r ffi yn llawn? Os felly, ydych chi'n cytuno bod cap unigol o £4000 yn briodol, neu a ddylai'r llywodraeth ystyried amrywio'r cap ar gyfer lefelau gwahanol o ffioedd? Rhowch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb.

52. Derbyniwyd 43 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 17 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig o gyflwyno 'cap' incwm misol gros. Roedd 11 yn anghytuno â'r cynnig, ac ni roddodd 15 ymatebwr farn bendant. Dywedodd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion:

- Bod cap incwm misol gros yn rhesymol, teg a syml; a
- Bod y cynigion yn targedu'r dileadau ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf.

53. Er enghraifft, dywedodd un undeb llafur:

“Mae'r undeb, yn gyffredinol, yn cefnogi'r egwyddor o gap incwm sy'n golygu na fydd unigolyn ag incwm mwy na hyn yn gymwys i gael dileu'r ffi. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gellir targedu adnoddau ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf. Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno y dylai'r cap incwm misol fod yn is na'r cap cyfatebol sy'n berthnasol o dan Dilead 3 y cynllun dileu ffioedd presennol.”

54. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dadlau:

- bod y cap incwm misol gros yn rhy isel, yn bennaf oherwydd bod y trothwyon incwm misol gros yn rhy isel;
- bod y cap incwm misol gros yn rhy uchel;
- y dylid ystyried incwm misol net yn hytrach nac incwm misol gros;
- y dylai'r cap incwm misol gros fod yn amrywiadwy.

55. Er enghraifft, dywedodd un corff cyfreithiol gwirfoddol:

“Rydym yn awgrymu bod cap incwm misol o £4000 ar gyfer dileu ffioedd yn rhy uchel. Mae hyn gyfwerth ag incwm gros blyneddol o £70,000. Mae cap o £3000 (sy'n gyfwerth ag incwm gros blyneddol o £50,000) yn fwy priodol.”

56. Dywedodd un undeb llafur:

“Rydym yn cytuno'n gyffredinol y dylid cael cap incwm, er mwyn sicrhau bod y system dileu ffioedd yn canolbwyntio'r adnoddau ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf. Fodd bynnag....rydym yn credu y dylai hyn gysylltu ag incwm gwario, a fydd

yn darparu asesiad llawer mwy realistig a chywir o incwm cyfyngedig y rhai a allai elwa fwyaf o'r system dileu ffioedd.”

57. Dywedodd un grŵp busnes

“Rydym yn credu mai'r ateb mwyaf teg fyddai cyflwyno capiau incwm misol gros amrywiadwy ar gyfer gwahanol awdurdodaethau ffioedd, lle mae lefelau'n amrywio. At ddibenion dileu ffioedd y Tribiwnlys Cyflogaeth, mae cap incwm misol gros o £4,000 yn ymddangos yn rhesymol.”

Cwestiwn 8 - Ydych chi'n cytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer tystiolaeth ar gyfer y prawf incwm? Rhowch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb

58. Derbyniwyd 45 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 23 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer tystiolaeth. Roedd 17 yn anghytuno, ac ni roddodd 5 ymatebwr farn bendant. Dywedodd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion bod y gofynion tystiolaeth yn glir a rhesymol. Nodwyd hefyd y dylid cyflwyno prosesau rhannu data electronig lle'r oedd hynny'n bosibl.

59. Er enghraifft, dywedodd un corff busnes cynrychioliadol:

“Rydym yn cytuno â hyn. Mae'r cynigion yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng gofyn am dystiolaeth ddigonol er mwyn osgoi hawliadau ffug, a chreu rhwystr diangen at gyfiawnder i ymgeiswyr.”

60. Dywedodd un corff cyfreithiol cynrychioliadol:

“...mae'n rhaid i'r broses ar gyfer dangos tystiolaeth o incwm fod mor syml â phosibl. Mae tystiolaeth ddogfennol o fudd-dal cymhwysu gan DWP neu werth tri mis o gyfriflenni banc a slipiau cyflog/ffurflenni treth diweddar ar gyfer pobl hunangyflogedig yn ymddangos yn rhesymol. Byddai'r Gymdeithas yn annog cyflwyno systemau TG a fyddai'n galluogi'r Adran Gwaith a Phensiynau i rannu data am ymgeiswyr gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder at ddiben penderfynu ar gymhwyster ar gyfer dileu ffioedd, yn unol â'r Bil Trosedd a Llysoedd.”

61. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion yn dadlau:

- Na fyddai defnyddwyr tribiwnlys cyflogaeth o bosibl yn gallu casglu'r dystiolaeth ofynnol o fewn y terfynau amser sy'n cael eu pennu gan y tribiwnlysoedd cyflogaeth;
- Y gallai cyn-gyflogwr atal slipiau cyflog defnyddwyr y tribiwnlysoedd cyflogaeth, neu gallai'r achos fod yn ymwneud â diffyg talu cyflog;
- Bod ymgeiswyr yn aml yn wynebu oedi wrth gasglu tystiolaeth gan adrannau eraill y llywodraeth (er enghraifft, llythyr â dyddiad diweddar yn trafod budd-daliadau gan DWP); a
- Nid yw'r cynigion yn mynd i'r afael â gofynion pobl heb gyfrifon banc.

62. Er enghraifft, dywedodd dau undeb llafur:

“Mae gan y Tribiwnlys Cyflogaeth hwn yr awdurdod i dderbyn ceisiadau gan bobl nad ydynt wedi derbyn slip cyflog priodol neu unrhyw slipiau cyflog gan eu

cyflogwr. Felly, bydd yna nifer o ymgeiswyr nad ydynt wedi derbyn y slip cyflog perthnasol sydd ei angen fel tystiolaeth ategol, ond dyna yw union natur eu cais i'r Tribiwnlys, er mwyn ceisio cael gafael ar dystiolaeth o'r fath. Mae'n ymddangos yn annheg y gallai pobl o'r fath gael eu rhwystro."

"Mae'r terfynau amser byr sy'n berthnasol i hawliadau tribiwnlys cyflogaeth yn golygu ei bod yn aml yn anodd i hawlwr gasglu'r holl ddogfennaeth berthnasol cyn cyflwyno hawliad. Felly, mae'r TUC yn credu ei bod yn hollbwysig caniatáu i hawlwr mewn tribiwnlys cyflogaeth gyflwyno tystiolaeth sy'n arddangos cymhwyster i gael dileu'r ffi ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno gan dribiwnlys cyflogaeth. Byddai methiant i wneud hyn yn golygu y byddai rhai unigolion yn cael eu hatal yn annheg o'r system tribiwnlys cyflogaeth."

63. Dywedodd un corff barnwrol:

"Ymddengys bod y system yn cymryd yn ganiataol bod gan bawb gyfrif banc. Rydym ar ddeall nad oes gan gannoedd ar filoedd o oedolion ym Mhrydain Fawr gyfrif banc (o wybodaeth Trysorlys EM). Er y gellir ystyried bod nifer o'r bobl hynny heb gyfrif banc yn debygol o fod yn unigolion a fydd yn gymwys i gael dileu'r ffi ar y sail eu bod yn derbyn budd-dal cymhwyso, ni ellir cymryd hynny'n ganiataol".

Trin Incwm

64. Mae'r system dileu ffioedd arfaethedig yn seiliedig ar asesiad o incwm a chyfalaf gwario ymgeisydd a'u partner, oherwydd bydd yr ymgeisydd a'u partner yn elwa'n ariannol, neu fel arall, o ganlyniad i ddefnyddio llys neu dribiwnlys. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd rhai amgylchiadau pan na fyddai'n briodol i ymgeisydd gael ei asesu fel cwpl. Cynigiwyd y byddai ymgeisydd yn cael ei asesu fel unigolyn sengl pe byddai gan eu partner fudd gwrthwynebus yn yr achos y mae'r ymgeisydd yn gwneud cais am ddileu'r ffi ar ei gyfer (e.e. ysgariad neu drais domestig).

Cwestiwn 9 - Ydych chi'n cytuno y dylai cymhwyster i gael dileu'r ffi fod yn seiliedig ar asesiad o incwm aelwyd? Rhowch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb.

65. Derbyniwyd 44 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 22 o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai cymhwyster ar gyfer dileu ffioedd fod yn seiliedig ar asesiad o incwm aelwyd. Roedd 20 yn anghytuno â'r cynnig, ac ni roddodd 3 ymatebwr farn bendant. Dywedodd y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnigion:

- Y gallai partner fod yn ennill cyflog sylweddol, ac y dylid ystyried hyn wrth asesu cymhwyster;
- Bod y cynnig yn deg a rhesymol; a
- Mae'r cynnig yn adlewyrchu'r arfer cyfredol ar gyfer asesu incwm aelwyd.

66. Er enghraifft, dywedodd un corff cyhoeddus a chorff gwirfoddol:

“Ie. Gallai un partner fod yn ennill cyflog sylweddol felly dylid ystyried pob incwm.”

“Gallwn weld pan nad oes unrhyw fudd gwrthwynebus yn yr achos, bod dileu ffioedd sy'n seiliedig ar asesiad o incwm yr aelwyd, yn hytrach nac incwm yr unigolyn, yn briodol. Fodd bynnag, fel y dywed y papur, mae'n rhaid sicrhau bod proses briodol ar waith ar gyfer sefyllfaoedd eithriadol, fel yr awgrymwyd.”

67. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dadlau:

- Na ddylid asesu cyfalaf ac incwm gwario partner, yn arbennig pan nad oes unrhyw fudd ariannol uniongyrchol i'r partner;
- Bod gan rai cyplau drefniadau ariannol ar wahân, neu nid ydynt yn rhannu gwybodaeth ariannol gyda'i gilydd;
- Mae angen mwy o eglurhad ar y telerau ar gyfer asesu incwm aelwyd (e.e. pan fydd partneriaid yn byw ar wahân oherwydd amgylchiadau);
- Ni ddylid asesu incwm cartref yn y Llys Gwarchod, pan fydd 'P' yn agored i niwed, ac y gallai fod ganddynt gostau gofal uchel.

68. Er enghraifft, dywedodd un corff barnwrol:

“Mae gofyn am brawf o incwm partner yn codi materion ynglŷn â hawliau'r partner i breifatrwydd a sut y gall rhywun sydd â phartner nad yw'n dymuno datgelu gwybodaeth am eu cyllid, brofi hawliad am ddileu'r ffi. Rydym yn cwestiynu'r dystiolaeth ar gyfer yr honiad bod [“yr ymgeisydd a'u partner yn elwa'n ariannol, neu fel arall, o ganlyniad i ddefnyddio llys neu dribiwnlys”]. Bydd hyn yn dibynnu ar y trefniadau sy'n cael eu gwneud rhwng y partneriaid ynglŷn â materion ariannol. Ni ellir cymryd yn ganiataol bod y bartneriaeth ariannol yn gyfartal ac agored. Yn ogystal, gallai'r problemau sy'n gysylltiedig â hyn fod yn fwy amlwg mewn achos o berthynas tymor byr. Er enghraifft, dau unigolyn sydd wedi symud i mewn gyda'i gilydd o fewn y 6 mis diwethaf cyn i'r achos ddechrau. Nid yw o reidrwydd yn rhesymol disgwyl eu bod wedi rhannu'r trefniadau ariannol erbyn y cam hwn yn eu perthynas.”

69. Dywedodd un corff cyfreithiol:

“Mae Atodiad D yn rhoi diffiniad ymarferol o aelodaeth argadwedig “yn cynnwys unigolyn y mae'r ymgeisydd yn byw gyda hwy fel arfer fel cwpl, ond nad yw'n byw gyda hwy ar hyn o bryd oherwydd amgylchiadau'. Mae hyn yn ddisgrifiad rhy gyffredinol a byddai'n well trin a thrafod hyn gan ddefnyddio'r cysyniadau a ddefnyddir yn yr asesiadau budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm....Awgrymir bod cynnwys partner absennol mewn asesiad aelwyd yn amhriodol ym mhob achos pan fydd y partner absenoldeb yn cynnal cartref ar wahân, at ddibenion gwaith neu addysg er enghraifft. Os bydd y partner absennol mewn ysbyty neu ofal cartref preswyl hirdymor, byddai'n amhriodol ystyried eu hadnoddau hwy.”

Cwestiwn 10 - Ydych chi'n rhagweld unrhyw amgylchiadau eraill lle gallai budd gwrthwynebus fod yn berthnasol? Rhowch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb.

70. Derbyniwyd 26 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dywedodd y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn:

- Mae yna sefyllfaoedd amrywiol a allai gynrychioli budd gwrthwynebus, er enghraifft, pan fydd:
 - Y ddau bartner yn rhan o'r un grŵp ffi hawlwyd lluosog;
 - Mae'r partneriaid mewn partïon gwrthwynebol mewn achos (h.y. ac eithrio ysgariad); neu
 - Pan fydd ymgeisydd yn mynd â chyflogwr eu partner i dribiwnlys.
- Mae buddiannau gwrthwynebus yn fwy cyffredin yn y llys teulu, yn arbennig achosion sy'n cynnwys plant, neu gam-drin domestig (trais corfforol, ariannol neu fath arall o drais); a
- Dylid defnyddio disgrisiwn er mwyn sicrhau bod y system dileu ffioedd yn hyblyg er mwyn gallu ystyried sefyllfaoedd unigryw a diogelu mynediad i gyfiawnder.

71. Er enghraifft, dywedodd un corff cyhoeddus:

"... bydd buddiannau gwrthwynebus yn codi yn llawer amlach mewn anghydfodau cyfiawnder teuluoedd. Fodd bynnag, bydd yna nifer o enghreifftiau pan fydd un partner yn gwrthod cydweithredu, neu waeth. Bydd yr achosion hyn yn aml yn cynnwys plant. Mae hyn yn rheswm arall dros sicrhau bod yna broses ar gael yn gyfleus ar gyfer arfer disgrisiwn"

Ceisiadau trydydd parti

72. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig cynnal y prosesau presennol ar gyfer ceisiadau trydydd parti yn y Llys Gwarchod. Hynny yw, pan fydd achos yn ymwneud ag eiddo neu faterion ariannol ¹⁵ (yn hytrach nac iechyd a lles) mae 'P'¹⁶ yn cael ei drin/thrin fel talwr y ffi.' Mae hyn yn golygu bod y cais am ddileu ffioedd yn cael ei asesu ar sail incwm a chyfalaf gwario 'P' yn hytrach na'r ymgeisydd trydydd parti.

Cwestiwn 11 - Ydych chi'n cytuno y dylid defnyddio'r broses bresennol ar gyfer ceisiadau trydydd parti ym mhob llys a thribiwnlys, yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn, ac y dylai'r arfer presennol yn y Llys Gwarchod barhau? Rhowch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb.

73. Derbyniwyd 30 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 27 yn cytuno â'r cynigion ac roedd 3 yn anghytuno. Er nad oedd gan lawer o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig lawer o arsylwadau, dywedodd y rhai a roddodd eu sylwadau:

- bod yr arfer presennol yn deg ac ymarferol;
- y dylai'r broses ar gyfer ceisiadau trydydd parti fod yn gyson ar draws pob llys a thribiwnlys; a
- y dylai'r arfer presennol ar gyfer ceisiadau trydydd parti yn y Llys Gwarchod barhau.

¹⁵ Roedd yr ymgynghoriad wedi datgan, yn anghywir, bod 'P' yn cael ei drin fel yr ymgeisydd mewn achosion iechyd a lles yn y Llys Gwarchod. Hoffwn egluro mai'r trydydd parti sy'n cael ei drin fel yr ymgeisydd mewn achosion iechyd a lles.

¹⁶ Mae 'P' yn berson nad oes ganddynt alluedd meddyliol.

74. Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno â'r cynigion yn dadlau y dylai'r arfer presennol o godi ffioedd a thaliadau mewn achosion eiddo a materion ariannol (pan fydd cymhwyster yn seiliedig ar sefyllfa ariannol 'P') fod yn berthnasol hefyd mewn achosion iechyd a lles personol. Er enghraifft, dywedodd un corff cynrychioliadol:
- “...mae'r [corff] o'r farn y dylai hawl i ddileu'r ffi fod yn ddibynol ar incwm yr unigolyn y mae'r trydydd parti yn ei gynrychioli, oherwydd bod y cais yn cael ei wneud er budd yr unigolyn hwnnw”

3. Cwmpas y system dileu ffioedd

75. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y dylai'r dileu ffioedd gael eu cyfyngu i ffioedd sy'n daladwy neu swyddogaethau barnwrol sy'n darparu mynediad at gyfiawnder. O ganlyniad i hynny, mae'r llywodraeth yn cynnig tynnu'r ffioedd ar gyfer copïau o ddogfennau a ffioedd chwilio¹⁷ allan o gwmpas y system dileu ffioedd. Mewn amgylchiadau eithriadol, pan na dderbyniodd ymgeisydd gopi gwreiddiol gorchymyn (e.e. neu os na fydd lleoliad parti yn hysbys ar y pryd), mae'r llywodraeth yn cynnig na ddylid codi ffi copi i ddechrau, yn hytrach na dileu'r ffi.
76. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn a ddylid parhau i gynnwys y ffioedd copïau o ddogfennau a'r ffioedd chwilio yng nghwmpas y system dileu ffioedd, ac a oes yna unrhyw amgylchiadau a allai gyfyngu ar fynediad at gyfiawnder.

Cwestiwn 12 - Ydych chi'n cytuno y dylid eithrio'r gofyniad i ddarparu copïau o ddogfennau a chwiliadau o'r system dileu ffioedd? Rhwch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb.

77. Derbyniwyd 42 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 24 o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid eithrio copïau o ddogfennau a ffioedd chwilio o'r system dileu ffioedd. Roedd 14 yn anghytuno ac ni roddodd 4 ymatebwr farn bendant. Dywedodd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion:
- Nad yw ffioedd ar gyfer copïau o ddogfennau a ffioedd chwilio yn hwyluso mynediad at gyfiawnder;
 - Os bydd dogfennau wedi'u darparu eisoes, yna dylid eithrio'r ffi hon o'r system dileu ffioedd;
 - Mae'r system bresennol yn agored i gael ei chamddefnyddio, gydag ymgeiswyr yn gofyn am fwy na'r hyn sydd ei angen arnynt; a
 - Bydd y cynnig yn lleihau gwastraffu adnoddau staff.
78. Er enghraifft, dywedodd un corff cyhoeddus ac un unigolyn:

¹⁷ Mae'n rhaid i unigolyn sy'n dymuno cael copi ychwanegol o ddogfen a ddelir gan lys neu dribiwnlys dalu ffi. Mae'n rhaid i unigolyn sy'n dymuno cael gwybodaeth a ddelir gan lys neu dribiwnlys dalu ffi chwilio am hyn.

“... mae'r ffaith y gall ymgyfreithwyr sydd wedi'u heithrio o'r ffi ofyn i staff llysoedd wneud llungopiâu a pheidio â thalu amdanynt yn hollol hurt. Rwy'n ymwybodol o sawl enghraifft o ymgyfreithwyr sydd wedi'u heithrio o'r ffi yn dweud eu bod yn gwybod y gallant gael copïau wedi'u gwneud am ddim.”

“... prif ddiben cyllid cyhoeddus yw hwyluso mynediad at gyfiawnder [i'r rhai] na allant wneud hynny gyda'u hincwm eu hunain. Oni fydd ymgeiswyr yn gallu profi y byddai peidio â chael mynediad at wybodaeth o'r fath yn rhwystro eu mynediad at gyfiawnder, ni welaf unrhyw gyfiawnhad dros ofyn i'r cyhoedd ariannu'r gwariant hwn.”

79. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dadlau

- Bod posibilrwydd na fydd ymgeisydd wedi derbyn y ddogfen wreiddiol, yn arbennig pobl mewn sefyllfaoedd bregus (e.e. pobl ddigartref);
- Gallai'r cynnig gyfyngu mynediad at gyfiawnder, yn arbennig i bobl ar incwm isel; a
- Bydd cynnydd mewn hunan ymgyfreitha yn dilyn y diwygiadau i gwmpas cymorth cyfreithiol (ar ôl pasio Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012), a fydd yn cynyddu'r galw am y gwasanaethau hyn.

80. Er enghraifft, dywedodd un undeb llafur:

“Mae hyn yn peri pryder penodol mewn sefyllfaoedd pan fydd y mater y mae cyfiawnder yn cael ei geisio ar ei gyfer wedi golygu bod parti yn ddigartref ac yn dibynnu ar elusen i gael bwyd. Efallai na fydd gan ddiodefw'r trais domestig neu achos o droi allan anghyfreithlon fynediad at unrhyw ddogfennau. Efallai y bydd angen y dogfennau i brofi cam-drin domestig er mwyn gwneud cais am gynrychiolaeth gyfreithiol. Mae angen sicrhau rhai camau diogelwch ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.”

Cwestiwn 13 - Ydych chi'n rhagweld amgylchiadau pan fyddai codi tâl am wneud copïau o ddogfennau neu ffioedd chwilio yn cyfyngu ar fynediad at gyfiawnder? Rhwch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb.

81. Derbyniwyd 26 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dywedodd y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn:

- Y bydd y cynigion yn cynyddu'r gost ymgyfreitha i unigolion, a allai gyfyngu ar fynediad at gyfiawnder;
- Y bydd posibilrwydd na fydd ymgeisydd wedi derbyn y ddogfen wreiddiol, yn arbennig pobl mewn sefyllfaoedd bregus (e.e. pobl ddigartref);
- Bod pryder penodol ynglŷn ag ymgyfreithwyr unigol sy'n wynebu taliadau lluosog; a
- Na fydd pobl ar incwm isel yn gallu fforddio talu'r ffioedd am wneud copïau o ddogfennau neu chwilio.

82. Er enghraifft, dywedodd un corff cyfreithiol cynrychioliadol:

“Efallai bod codi ffi o £5 ar berson sy'n cael dileu'r ffi am gopi o ddogfen yn ymddangos yn isel, ond drwy luosi'r swm hwn nifer o weithiau, gallai'r taliadau hyn rwystro mynediad at gyfiawnder yn gyflym iawn i rai pobl. Mae'n rhaid pennu uchafswm o'r hyn y disgwylir i berson sy'n cael dilead ffi ei dalu, os bydd ffioedd copiau o ddogfennau neu ffioedd chwilio yn cael eu dileu o'r system dileu ffioedd.”

Dileu Ffioedd yn Ôl-weithredol

83. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig lleihau'r cyfnod lle gallai ymgeiswyr wneud cais am ddileu'r ffi yn ôl-weithredol (ad-daliad) o chwe mis i ddau fis ar y sail bod dau fis yn ddigon o amser i gasglu'r dystiolaeth ddogfennol sydd ei hangen i gefnogi cais am ddileu'r ffi yn ôl-weithredol. Gallai'r Arglwydd Ganghellor (mewn llysoedd neu dribiwnlysoedd) neu'r Prif Weithredwr yng Ngoruchaf Lys y DU ymestyn y cyfnod os byddant yn 'ystyried bod rheswm da dros wneud cais ar ôl cyfnod o ddau fis.'
84. Fe wnaethom holi a oedd dau fis yn darparu digon o amser i wneud cais am ddileu'r ffi yn ôl-weithredol (ad-daliad); gofynnwyd un cwestiwn, sef.

Cwestiwn 14 - Ydych chi'n cytuno y dylid lleihau'r terfyn amser ar gyfer gwneud cais am ddileu'r ffi yn ôl-weithredol i ddau fis? Rhwch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb.

85. Derbyniwyd 45 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 29 yn anghytuno y dylid lleihau'r terfyn amser ar gyfer dileu ffioedd yn ôl-weithredol i ddau fis. Roedd 10 yn cytuno â'r cynnig, ac ni roddodd 6 ymatebwr farn bendant. Dywedodd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion:
- Bod dau fis yn gyfnod rhesymol ar gyfer casglu tystiolaeth; a
 - Y dylid cael proses ar waith ar gyfer amgylchiadau eithriadol.
86. Er enghraifft, dywedodd un corff cynrychioliadol:
- “Rydym yn cytuno â'r cyfnod o ddau fis, ond rydym yn awgrymu'n gwrtais y dylid cael rhyw broses ar waith ar gyfer achosion gydag amgylchiadau eithriadol”
87. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dadlau:
- Nad oedd dau fis yn rhoi digon o amser i gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol;
 - Bod ymgeiswyr yn aml yn wynebu oedi wrth geisio casglu tystiolaeth gan adrannau eraill y llywodraeth;
 - Efallai y bydd cyn-gyflogwr yn rhwystro defnyddwyr tribiwnlysoedd cyflogaeth rhag cael tystiolaeth angenrheidiol;
 - Mae pryder penodol na fydd defnyddwyr y Llys Gwarchod yn gallu cael mynediad at wybodaeth ariannol am 'P' (nad oes ganddynt alluedd meddyliol) o fewn dau fis;
 - Nid yw defnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd yn ddigon ymwybodol o'r system dileu ffioedd i wneud cais o fewn dau fis
88. Er enghraifft, dywedodd un undeb llafur:

“Mae dau fis yn gyfnod afrealistig o fyr. Bydd llawer o'r dystiolaeth ddogfennol sydd ei hangen ar ymgeiswyr yn y Tribiwnlys Cyflogaeth ym meddiant eu cyn-gyflogwr, sy'n annhebygol o gydweithredu gyda chyn-gyflogai sy'n dwyn achos yn eu herbyn. Rydym ni'n awgrymu tri mis.”

89. Dywedodd un corff cyfreithiol arbenigol:

“Os bwriedir i'r terfyn amser ddechrau o ddyddiad y cais, yna credwn y byddai'n amhosibl cydymffurfio â'r terfyn amser a gynigir. Mae ceisiadau i'r Llys Gwarchod yn cymryd rhwng 10-16 wythnos i'w prosesu ar hyn o bryd. Dim ond ar ôl derbyn gorchymyn y gall Dirprwy gysylltu â sefydliadau ariannol i'w hysbysu eu bod wedi'u penodi a gofyn am y manylion perthnasol am y cyfalaf a'r incwm presennol. Felly, mae'n amlwg bod terfyn amser o ddau fis yn gwbl annigonol.”

Hawliadau Lluosog

90. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig ymestyn y darpariaethau dileu ffioedd sy'n berthnasol yn y llysoedd sifil ar hyn o bryd ar gyfer hawliadau lluosog, i bob llys a thribiwnlys, a chadw'r darpariaethau ychwanegol ar gyfer hawliadau aml-barti yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth (pan fydd y cynnydd mewn ffi yn ddibynnol ar nifer y partiön sy'n cyflwyno hawliad).
91. Pan fydd dau neu o hawlwr neu ddiffynyddion yn gysylltiedig â'r un achos, bydd pob un ohonynt yn gyfrifol am unrhyw ffioedd y bydd angen eu talu yn ystod yr achos. Gall pob hawlwr neu ddiffynydd wneud cais am ddileu ffi. Os bydd i un neu fwy o'r hawlwr neu ddiffynyddion yn cael dileu'r ffi, bydd yr hawlwr neu'r diffynyddion sy'n weddill (os oes rhai) yn gyfrifol am y ffi. Os bydd dau neu fwy o'r hawlwr neu ddiffynyddion yn cael dilead rhannol, bydd y symiau y bydd yn rhaid iddynt eu talu at y ffi yn cael eu hychwanegu at ei gilydd.
92. Roedd y llywodraeth hefyd yn cynnig diogelwch sy'n golygu na fyddai unrhyw un unigolyn mewn hawliad aml-barti yn gorfod talu mwy na'r ffi sengl.
93. Roedd y llywodraeth yn cydnabod bod gan y Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau, sydd bellach wedi'i uno â'r Tribiwnlys Haen-gyntaf (Siambur Eiddo), ddarpariaethau gwahanol ar gyfer hawliadau aml-barti. O dan y darpariaethau hyn, pe byddai un neu fwy o'r hawlwr yn cael dileu'r ffi, bydd yr hawlwr sy'n weddill (os oes rhai) ond yn gyfrifol am gyfran benodol o'r ffi (e.e. 50% o'r ffi o dan hawliad dau berson). O dan ein darpariaethau ni, byddai'r hawlwr/hawlwr sy'n weddill yn gyfrifol am y ffi gyfan, gyda phroses arbennig a fyddai'n golygu na fyddant fyth yn gorfod talu mwy na'r ffi sengl.

Cwestiwn 15 - Rydym yn awyddus i glywed a oes unrhyw ffactorau eraill y mae angen eu hystyried ar gyfer hawlwr sy'n ceisio dileu ffioedd mewn hawliadau lluosog.

94. Derbyniwyd 24 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dywedodd y rhai a ymatebodd:

- Mae'r gweithdrefnau y mae hawlwr yn gorfod eu dilyn wrth geisio dileu ffioedd mewn hawliadau lluosog¹⁸ yn gymhleth ac aneglur;
- Mae yna ddulliau gweithredu anghyson mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth a llysoedd a thribiwnlysoedd eraill, oherwydd bod y tribiwnlysoedd cyflogaeth yn gweithredu strwythurau ffioedd lluosog;
- Mae angen eglurhad o'r broses apelio i'r sawl sy'n gwneud cais am ddileu ffioedd mewn hawliadau lluosog;
- Mae'r cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn undebau llafur;
- Dylai'r arfer presennol ar gyfer hawliadau lluosog yn y Tribiwnlys Haen-gyntaf (Siambur Eiddo) barhau

95. Er enghraifft, dywedodd un corff cyhoeddus:

“Rydym yn poeni am yr ymagwedd anghyson sy'n cael ei mabwysiadu ar gyfer achosion sifil yn erbyn achosion Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, yn arbennig o ystyried y nod o greu un system dileu ffioedd. Pryder arall i ni yw'r broses gymhleth sy'n wynebu staff ac ymgyfreithwyr, wrth geisio cyfrifo'r ffioedd sy'n daladwy gan bob unigolyn mewn achos hawlwr lluosog, pan fydd rhai hawlwr yn gymwys i gael dileu ffioedd ond nid eraill”

96. Dywedodd un corff cyfreithiol:

“Bydd y rhan fwyaf o achosion lluosog yn cynnwys aelodau undebau llafur, ac mae'n ymddangos bod rheolau sy'n datgan na roddir unrhyw ddileu ffioedd yn yr amgylchiadau hynny. Oherwydd bod undeb llafur ond yn indemnio aelodau yn erbyn y treuliau y byddant yn gorfod eu hysgwyddo, mae'r ymagwedd hon yn annheg i undebau llafur.”

Cwestiwn 16 - Yn gyffredinol, ydych chi'n cytuno bod hyn yn darparu strwythur teg, tryloyw ac ymarferol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ddileu ffioedd ar gyfer Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a Goruchaf Lys y DU? Rhowch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb.

97. Derbyniwyd 45 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 28 yn anghytuno bod y cynigion yn darparu strwythur teg, tryloyw ac ymarferol i ddileu ffioedd. Roedd 12 yn cytuno â'r cynigion ac ni roddodd 5 ymatebwr farn bendant. Dywedodd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion:

- Bod y cynigion yn deg, tryloyw ac ymarferol;
- Bod system dileu ffioedd gydlynus yn fuddiol i bawb;
- Bod y system arfaethedig yn hawdd ei deall.

¹⁸ Mae 'hawliadau lluosog' yn cyfeirio at grwpiau ffi hawlwr lluosog sy'n cyflwyno eu hawliad i'r tribiwnlys gyda'i gilydd (e.e. ar ffurflen ET1), a byddant yn parhau yn y grwpiau ffi ar gyfer hyd oes yr hawliad (waeth sut y bydd barnwr yn penderfynu rheoli hawliad). Mae 'lluosog' yn golygu grŵp o achosion sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd gan y farnwriaeth at ddibenion rheoli achos a gwrandawriad. Gallai barnwr orchymyn i nifer o grwpiau ffi, neu unigolion, gwahanol i ymuno fel un grŵp mwy. Ni fydd hyn yn newid statws hawlwr y grŵp ffi neu unigolion.

98. Er enghraifft, dywedodd un corff cynrychioliadol:

“Yn gyffredinol, rydym yn credu bod hyn yn darparu strwythur teg, tryloyw ac ymarferol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ddileu ffioedd, ond mae hyn yn amodol ar y sylwadau amrywiol sydd wedi'u gwneud.”

99. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion yn dadlau:

- Y byddai'r system dileu ffioedd arfaethedig yn cyfyngu ar fynediad at gyfiawnder, yn arbennig i bobl ar incwm isel a phobl agored i niwed/pobl â nodweddion gwarchoddedig;
- Bod y system arfaethedig yn rhy gymhleth, ac nad yw felly'n ymarferol;
- Nid yw'r diwygiadau arfaethedig yn mynd yn ddigon pell, i'r graddau y dylai pob ymgeisydd wneud yr un cyfraniad at ffi.

100. Er enghraifft, dywedodd un corff gwirfoddol:

“Mae'r system dileu ffioedd arfaethedig yn rhy gymhleth, a bydd nifer o ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn cael anhawster i'w deall yn llawn; bydd pobl eraill yn cael anhawster i gyflawni'r gofynion o ran tystiolaeth. Ac, fel y nodwyd uchod, mae'r trothwyon cyfalaf gwario ac incwm yn llawer rhy isel. Credwn y bydd hyn yn arwain at galedi ariannol i rai pobl ar incwm isel, a diffyg mynediad at gyfiawnder i bobl eraill.”

4. Yr Effaith ar Gydraddoldeb

101. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys asesiad o effaith y cynigion ar gydraddoldeb yn y crynodeb effaith ar gydraddoldeb (sy'n atodiad i'r Asesiad o Effaith). Canfu'r asesiad, o'r bobl hynny y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, ni fydd 57% yn gweld unrhyw effeithiau cost na chymhwyster ar gyfer dileu ffioedd. Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar 13% arall, a byddant yn cael effaith negyddol ar 30%.

102. Mae ein gwaith modelu wedi dangos y gallai fod rhai effeithiau gwahanol sy'n gysylltiedig â nodwedd warchoddedig oedran. Gallai'r rhai mewn grwpiau oedran hŷn weld mwy o ostyngiad mewn cymhwyster am ddileu'r ffi a chynnydd mewn taliad tuag at ffi, o'i gymharu â'r rhai mewn grwpiau oedran iau, oherwydd eu bod yn fwy tebygol o feddu ar gyfalaf gwario. Fe wnaethom ganfod rhai mân wahaniaethau mewn cysylltiad â hil, gyda phobl o grŵp ethnig Gwyn yn llawer mwy tebygol o wynebu effaith negyddol, o gymharu â phobl o grwpiau Du-Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd ein gwaith modelu yn dangos bod effeithiau ymylol ar anabledd a rhyw.

103. Roeddem yn cydnabod yn yr ymgynghoriad mai data cyfyngedig a oedd ar gael i ni seilio ein crynodeb effaith ar gydraddoldeb. Mae hyn yn arbennig o wir mewn cysylltiad â'r effeithiau ar y gymuned drawsrywiol¹⁹ am nad oes gennym ddata digonol i amcangyfrif effeithiau ariannol ein cynigion. O ystyried y cyfyngiadau

¹⁹ Y mae cyfran yn debygol o ddefnyddio'r Panel Cydnabod Rhyw.

hyn, fe wnaethom holi cwestiynau ar gydraddoldeb i'n rhanddeiliaid, er mwyn cael dealltwriaeth well o effeithiau'r cynigion hyn ar gydraddoldeb.

Cwestiwn 17 - Ydych chi'n credu bod y system dileu ffioedd arfaethedig yn debygol o gael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol ar gydraddoldeb. Rhowch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb.

104. Derbyniwyd 36 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 27 o'r ymatebwyr yn dadlau y byddai'r cynigion yn cael effaith andwyol ar gydraddoldeb. Roedd 15 yn dadlau bod y cynigion yn annhebygol o gael unrhyw effaith ar gydraddoldeb, ac ni roddodd 4 ymatebwr farn bendant. Dywedodd yr ymatebwyr hynny a oedd yn credu bod y cynigion yn annhebygol o gael unrhyw effaith ar gydraddoldeb bod:
- Y cynigion yn deg a chytbwys am eu bod yn gymwys i bawb
 - Yr effeithiau yn gymesur.
105. Er enghraifft, dywedodd un corff busnes cynrychioliadol:
- “Rydym yn cytuno bod y cynigion yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon.”
106. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn dadlau y byddai'r cynigion yn cael effaith andwyol ar gydraddoldeb yn dadlau:
- Bod cyswllt rhwng pobl ar incwm isel â'r nodweddion gwarchodedig sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010.²⁰
 - Y dylai'r llywodraeth nodi canfyddiadau adroddiad Leonard Cheshire yn 2008, 'Disability Poverty in the UK' ac adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree yn 2007, 'Poverty and ethnicity in the UK'²¹, sy'n arddangos mwy o achosion cyffredin o dlodi ymhlith pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig;
 - Bod y cynigion yn cael effaith anghymesur ar yr henoed, ac un pryder penodol oedd na allai'r henoed adnewyddu eu hincwm gwario a'r effeithiau anghymesur ar ddefnyddwyr y Llys Gwarchod;
 - Nid yw'r asesiad o'r effaith yn ddigon cadarn;
 - Nid yw'n bosibl cyfiawnhau effeithiau'r diwygiadau ar gydraddoldeb.
107. Er enghraifft, dywedodd un corff cyfreithiol arbenigol:
- “Mae'r ffigurau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad eisoes yn dangos bod effaith andwyol ar yr henoed, o gymharu â'r categorïau eraill, ac nid oes tystiolaeth o allu gwirioneddol yr henoed i dalu'r ffioedd. Bydd hyn yn cael effaith andwyol ar y rhesymau y mae ein cleientiaid yn defnyddio'r Llys Gwarchod yn y rhan fwyaf o

²⁰ Mae Deddf Cydraddoldeb Hiliol yn rhoi amlinelliad o'r nodweddion sy'n cael eu cynnwys fel nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/pdfs/ukpga_20100015_en.pdf

²¹ <http://www.lcdisability.org/?lid=6386>; <http://www.jrf.org.uk/publications/poverty-and-ethnicity-uk>

achosion. Pan fydd angen cymorth ar unigolyn i reoli eu materion ariannol neu les unigolyn arall oherwydd diffyg galluedd, byddem yn dadlau bod effaith annheg ac afresymol yn y cynigion presennol i ystyried cyfalaf ac incwm yr aelwyd heb gynnwys ystyriaeth benodol o effaith ffioedd cartref gofal / costau gofal. Gallai fod yn anodd i bobl agored i niwed ddehongli'r "tariff" arfaethedig, a gallai rwystro rhai pobl rhag gwneud cais i'r Llys Gwarchod a chynyddu'r risg o gamddefnydd ariannol posibl, gyda mesurau amhriodol yn cael eu cymryd i geisio rheoli arian neu eiddo.

108. Dywedodd un undeb llafur:

Yn gyffredinol, mae'r system dileu ffioedd yn bodoli i gynorthwyo pobl ag incwm cyfyngedig ac mae ymchwil gan, ymhlith eraill, Sefydliad Joseph Rowntree, yn awgrymu bod y rhai â nodweddion gwarchodedig, sydd wedi'u diffinio gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn llawer mwy tebygol o feddu ar incwm cyfyngedig. O ganlyniad, bydd unrhyw newidiadau i'r system dileu ffioedd sy'n lleihau argaeledd dileu ffioedd, megis y cynigion a gynhwysir yma, yn cael yr effaith negyddol fwyaf ar y rhai â nodweddion gwarchodedig, ac felly byddant yn cael effaith negyddol ar gydraddoldeb.

Cwestiwn 18 - Os ydych yn credu bod y cynnig yn debygol o gael unrhyw effeithiau negyddol ar gydraddoldeb, sut y gellir lliniaru'r effeithiau hyn? Rhowch eich rheswm/rhesymau dros eich ateb

109. Derbyniwyd 28 o sylwadau i'r cwestiwn hwn. Wrth ddatgan eu cefnogaeth i'r cynigion, dywedodd un unigolyn:

"Ni allaf weld unrhyw beth sy'n awgrymu problemau cydraddoldeb, cyhyd ac y bydd yn cael ei gyflwyno'n gyfartal."

110. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn dadlau y gellir lliniaru'r effeithiau negyddol ar gydraddoldeb drwy gynyddu'r trothwyon a ddefnyddir yn y prawf cyfalaf a'r prawf incwm gros blynyddol. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylid anwybyddu rhai mathau o gyfalaf ar gyfer pobl dros 60 oed, ac eithrio taliadau dileu swydd a didyniadau ar gyfer costau gofal plant neu gostau tai.

111. Unwaith eto, dywedodd rhai o'r ymatebwyr bod y wybodaeth am gydraddoldeb a ddarparwyd gyda'r ymgynghoriad yn annigonol.

Cwestiwn 19 - Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw dystiolaeth bellach a allai gynorthwyo ein dadansoddiad o effeithiau posibl ar gydraddoldeb? Os felly, a fyddech cystal â rhoi tystiolaeth i ni o hyn.

112. Derbyniwyd 13 o sylwadau i'r cwestiwn hwn. Fe awgrymodd yr ymatebwyr nifer o ffynonellau tystiolaeth/data, yn bennaf adroddiad anabledd Leonard Cheshire 2008, 'Disability Poverty in the UK' ac adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree 2007, 'Poverty and ethnicity in the UK', ond hefyd:

- Y Comisiwn Cyflogau Isel
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

- Adran Gwaith a Phensiynau
- Elusennau sy'n arbenigo yng ngofal i bobl anabl, eiddil neu'r henoed
- TUC ac Undebau Cysylltiedig
- Tystiolaeth ynglŷn â diffyg talu dyfarniadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth
- Luton Irish Forum.

5. Rhannu data yn electronig

113. Ym mhob ymateb i gwestiynau penodol, dywedodd yr ymgeiswyr y byddai'r ymgeiswyr a gweinyddwyr y system dileu ffioedd yn elwa ar gysylltiadau electronig gyda DWP a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
114. Er enghraifft, dywedodd grŵp busnes cynrychioliadol:
- “Rydym hefyd yn credu y dylai'r llywodraeth fod wedi cyflwyno systemau erbyn hyn sy'n galluogi gwahanol rannau o'r llywodraeth i gadarnhau gwybodaeth yn electronig, ac y dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi fod wedi sicrhau mynediad i wybodaeth sy'n cael ei chadw gan DWP a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ers amser maith.”
115. Nododd un grŵp gwirfoddol:
- “Rydym yn croesawu'r nod hirdymor o gadarnhau bod pobl yn derbyn budd-daliadau cymhwyso a gwybodaeth arall am ymgeiswyr yn electronig, ond byddem yn cwestiynu a yw hynny'n ymarferol heb ddiweddarau systemau cyfrifiaduron y llysoedd yn sylweddol i ddechrau.”

Atodiad B: Rhestr o'r Ymatebwyr

Access Law LLP

Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd

Association of Residential Managing Agents (ARMA)

Associated Society of Locomotive Engineers and Firemen (ASLEF)

Association of Personal Injury Lawyers (APIL)

Cyngor y Bar

Bradford Law Centre

Caroline Bielanska Consultancy

CBI

Cyngor ar Bopeth

Civil Courts Users Association

Civil Justice Council

Cloisters

Cyngor Barnwyr Cyflogaeth (Cymru a Lloegr)

EEF Sefydliad y Manwerthwyr

Cymdeithas Cyfreithwyr Cyflogaeth

Faculty of Advocates

Family Justice Council

Finance & Leasing Association

Federation of Private Residents' Associations (FPRA)

Federation of Small Businesses (FSB)

GMB

GLLTEM (4 ymateb unigol)

Hughes Carlisle

Unigolion (8)

Sefydliad y Cyfarwyddwyr

Judiciary of the Employment Tribunals for England and Wales

Justice Clarkes Society

Cymdeithas y Gyfraith

The Law Society (Scotland)

LGBT Youth Scotland

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (1 ymateb unigol)

Money Advice Trust

Motor Accident Solicitors Society (MASS).

National Union of Journalists (NUJ)

Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)

PCS

Llywydd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (yr Alban)

RMT

Scotland's Trade Union Centre (TUC)

Scottish Transgender Alliance

SNAP Cymru

Society of Trust and Estate Practitioners

Solicitors for the Elderly

Southwark Law Centre

St James Church and Legal Advice Centre

The Association of Her Majesty's District Judges

Thompsons Solicitors

TUC

Unison

UNITE

USDAW

Young legal Aid Lawyers (YLAL) (sy'n cymeradwyo ymateb Cymdeithas y Gyfraith)

Yorkshire Employment Tribunal Members' Association (YETMA)

Atodiad C: Trin cyfalaf ac incwm gwario

Adnoddau partner

1. Wrth asesu cymhwyster ymgeisydd i gael dilead llawn neu rannol, dylid cynnwys incwm a chyfalaf partner, os oes partner, fel incwm a chyfalaf yr ymgeisydd - oni fydd gan bartner fudd gwrthwynebus yn yr achos y mae'r ymgeisydd yn ceisio cael dileu'r ffi ar ei gyfer (e.e. ysgariad, ardystiad ailbennu rhywedd, priodas dan orfod neu drais domestig).
2. Mae "Partner" yn golygu unigolyn y mae'r ymgeisydd yn byw gyda hwy fel cwpl. Mae hyn yn cynnwys unigolyn y mae'r ymgeisydd yn byw gyda hwy fel arfer fel cwpl, ond nad ydynt yn byw gyda hwy ar hyn o bryd oherwydd amgylchiadau (e.e. pan fydd partner yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog).

CYFALAF

Diffiniad o gyfalaf

3. Mae "cyfalaf gwario" yn golygu, gwerth pob adnodd a chyfalaf y mae'r ymgeisydd yn berchen arnynt ar y dyddiad y gwneir y cais, oni bai -
 - a. ei fod yn cael ei drin fel incwm;
 - b. ei fod yn cael ei ddiystyru.
4. Dylai unrhyw symiau sy'n cael eu talu'n rheolaidd (e.e. taliadau o dan flwydd-dal) gael eu trin a'u datgan fel incwm gan yr ymgeisydd.
5. Mae ffynonellau cyfalaf gwario yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:
 - a. pob cyfalaf a ddelir mewn pob math o gyfrifon cynilo, ISA, bondiau cyfradd sefydlog, bondiau buddsoddi neu gynilion sy'n gysylltiedig â'r farchnad, cronfa ymddiriedaeth (lle bo modd), neu unrhyw arian arall sydd ar gael i'r ymgeisydd;
 - b. stociau neu gyfranddaliadau;
 - c. unrhyw fath o gynnyrch ariannol cyfalaf (megis ymddiriedolaethau uned, Cwmni Buddsoddiad Penagored (OEIC), neu ddeilliadau
 - d. pob math o daliadau cyfalaf dileu swydd a dderbynnir ²²;
 - e. unrhyw daliadau cyfalaf ("cyfandaliadau") a dderbynnir o bolisiâu gwaddol neu yswiriant (oni fydd y taliadau'n cael eu derbyn mewn achosion o salwch, anabled neu farwolaeth);

²² Mae hyn yn cynnwys, oni fydd yn cael ei dalu fel incwm, cyflog dileu swydd statudol, cyflog dileu swydd anstatudol, talu cyflogau yn lle rhybudd, a thaliadau gwyliau / amser yn lle gwyliau dyledus.

- f. Ail gartrefi;
- g. Unrhyw gyfalaf a ddelir ar y cyd (pan fydd gan un neu fwy o bartïon fudd ariannol mewn ffynhonnell cyfalaf gwario);
- h. Unrhyw fath o gyfalaf a ddelir y tu allan i'r DU.

Prisio cyfalaf

- 6. Pan na fydd cyfalaf gwario yn arian parod, bydd ei werth yn cael ei gyfrifo fel ei werth presennol yn y farchnad neu werth ildio, llai
 - a. costau sy'n gysylltiedig â'u gwerthu (10%); a
 - b. swm unrhyw ddyledion sydd wedi'i sicrhau arno

e.e. Gwerth presennol ail gartref ymgeisydd yn y farchnad yw £100,000, Llai 10% ar gyfer costau gwerthu (£10,000) a llai eu morgais (£70,000) sy'n gadael £20,000 o werth cyfalaf i'w ystyried.

- 7. Gwerth cyfalaf ymgeisydd mewn gwlad y tu allan i'r DU yn y farchnad yw:
 - os nad oes gwaharddiad yn y wlad honno rhag trosglwyddo'r cyfalaf hwnnw i'r DU, gwerth y farchnad yn y wlad honno; neu
 - os oes gwaharddiad o'r fath, y swm y byddai'n ei greu pe byddai'n cael ei werthu yn y DU i brynwr parod.
- 8. Pan fydd cyfalaf gwario mewn arian nad yw'n sterling, caiff ei gyfrifo ar ôl didynnu unrhyw dâl bancio neu gomisiwn sy'n daladwy wrth drosglwyddo'r arian hwnnw i sterling.
- 9. Pan fydd ymgeisydd yn berchen ar ased cyfalaf gwario ar y cyd (gydag un neu fwy o bobl eraill), ystyrir bod gan yr ymgeisydd gyfran gyfartal yn yr asedau hynny, yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb.
- 10. Bydd cyfalaf a ddelir mewn busnes y mae'r Cyflogeion yn berchen arno (EOB) yn cael ei ystyried, oni fydd y cwmni yn cynnal cyfranddaliadau'r ymgeiswyr gyda'i gilydd (e.e. mewn ymddiriedolaeth cyflogwr megis model John Lewis).

Cyfalaf a fydd yn cael ei ddiystyru

- 11. Oni fydd gan ymgeisydd unrhyw symiau neu werth eithriadol yn yr eitemau dan sylw, ni fydd unrhyw rai o'r canlynol yn cael eu hystyried fel cyfalaf gwario:
 - a. eiddo, pan fydd yn brif gartref neu'n unig gartref yr unigolyn;
 - b. dodrefn ac eitemau i'r cartref ym mhrif gartref neu unig gartref yr unigolyn;
 - c. dillad personol;

- d. unrhyw gerbyd, y byddai gwerthu'r cerbyd hwn yn golygu na fyddai gan yr unigolyn, neu eu partner, drafnidiaeth fodurol;
- e. offer neu eitemau masnach, yn cynnwys cerbydau a ddefnyddir at ddibenion busnes;
- f. gwerth cyfalaf busnes yr unigolyn neu eu partner pan fydd yr unigolyn neu eu partner yn hunangyflogedig;
- g. gwerth cyfalaf unrhyw arian neu asedau eraill a ddelir mewn ymddiriedolaeth, pan fydd yr unigolyn neu eu partner yn fuddiolwr heb hawl i flaendaliadau o unrhyw gyfalaf ymddiriedolaeth;
- h. bonws dychwelyd i'r gwaith ceisiwr gwaith;
- i. taliad a wneir o ganlyniad i benderfyniad diswyddo annheg gan dribiwnlys cyflogaeth neu o ganlyniad i setlo hawliad am ddiswyddo annheg;
- j. unrhyw iawndal sy'n cael ei dalu o ganlyniad i benderfyniad esgeuluster meddygol neu mewn cysylltiad ag unrhyw anaf personol gan lys, neu drwy setliad hawliad am esgeuluster meddygol neu anaf personol;
- k. y cyfalaf a ddelir mewn unrhyw gynllun pensiwn personol neu alwedigaethol;
- l. unrhyw arian parod sy'n daladwy wrth ildio contract yswiriant;
- m. unrhyw daliad cyfalaf a wneir ar y Gronfa Byw'n Annibynnol;
- n. unrhyw daliad profedigaeth;
- o. unrhyw daliadau yswiriant cyfalaf neu gyfandaliad gwaddolion sydd wedi'u talu oherwydd salwch, anabledd neu farwolaeth;
- p. unrhyw fenthyciad myfyrwyr neu grant myfyrwyr; neu;
- q. unrhyw daliadau o dan y cynllun digolledu am anafiadau troseddol.

Amddifadu cyfalaf

- 12. Os bydd ymgeisydd wedi bod yn amddifadu eu hunain o gyfalaf yn fwriadol, er mwyn sicrhau hawl i ddilead llawn neu ddilead rhannol o'r ffioedd, ystyrir bod gan yr ymgeisydd gyfalaf wedi'i amddifadu.
- 13. Ni ystyrir bod ymgeisydd yn amddifadu eu hunain o gyfalaf gwario os bydd yr unigolyn yn cael gwared ar y cyfalaf at ddibenion-
 - lleihau neu dalu dyled sy'n ddyledus gan yr ymgeisydd; neu
 - prynu nwyddau neu wasanaethau angenrheidiol os oedd y gwariant yn rhesymol yn amgylchiadau achos yr unigolyn

INCWM

Diffiniad o incwm

14. "Incwm misol gros" yw cyfanswm yr incwm misol gros ar gyfer y mis cyn y gwneir y cais am ddileu'r ffi, o bob ffynhonnell ac eithrio unrhyw fudd-daliadau sydd wedi'u heithrio a dderbynnir."
15. Bydd yr incwm o fasnach, proffesiwn neu alwedigaeth ("enillion hunangyflogedig") yn cael ei gyfrifo'r gyfran yr unigolyn o'r elw net ar gyfer cyfnod cyfrifo diwethaf masnach, proffesiwn neu alwedigaeth o'r fath, y mae cyfrifon wedi'u paratoi ar eu cyfer, o'r arian y mae'r unigolion dan sylw wedi'i dderbyn ar gyfer y cyfnod a gyfrifwyd.

Budd-daliadau sydd wedi'u heithrio

16. "Mae "budd-daliadau wedi'u heithrio" yn golygu-
 - a. unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol sy'n daladwy o dan Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 neu ddarpariaethau cyfatebol Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 1992 -
 - i. lwfans gweini o dan adran 64;
 - ii. lwfans anabledd difrifol;
 - iii. lwfans gofalwr;
 - iv. lwfans byw i'r anabl;
 - v. lwfans gweini cyson o dan adran 104, fel cynnydd i bensiwn anabledd;
 - vi. unrhyw daliad a wneir o'r gronfa gymdeithasol;
 - vii. budd-dal tai;
 - viii. lwfans rhiant gweddw;
 - b. unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol sy'n daladwy o dan Ddeddf Credydau Treth 2002
 - i. unrhyw elfen plentyn anabl neu elfen plentyn ag anabledd difrifol y credyd treth plant
 - ii. unrhyw elfen gofal plant y credyd treth plant;
 - c. unrhyw daliad uniongyrchol a wneir o dan Reoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau i Ofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Lloegr) 2009, neu Reoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau i Ofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2011, Deddf Taliadau Gofalwyr a Phlant

- (Gogledd Iwerddon) 2002, neu adran 12B(1) Deddf Gwaith Cymdeithasol (yr Alban)1968;
- d. bonws dychwelyd i'r gwaith sy'n daladwy o dan adran [26] Deddf Ceiswyr Gwaith 1995 neu Erthygl 28 Gorchymyn Ceiswyr Gwaith (Gogledd Iwerddon) 1995;
 - e. unrhyw lwfans anabledd difrifol iawn a delir o dan Gynllun Anafiadau Personol (Dinasyddion) 1983;
 - f. unrhyw daliad o'r Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol;
 - g. unrhyw bensiwn a delir o dan Gorchymyn Pensiwn Gwasanaeth Morol, Milwrol a'r Awyrlu (Anabledd a Marwolaeth) 2006;
 - h. unrhyw daliad a wneir o'r Gronfa Byw'n Annibynnol;
 - i. unrhyw daliad a wneir o'r Lwfans Profedigaeth;
 - j. unrhyw gymorth ariannol a delir o dan gytundeb i ofalu am blentyn maeth;
 - k. unrhyw elfen credyd tai credyd pensiwn;
 - l. unrhyw daliad annibyniaeth y lluoedd arfog;
 - m. unrhyw daliad annibyniaeth personol sy'n daladwy o dan Ddeddf Diwygio Lles 2012;
 - n. unrhyw daliad a wneir mewn cysylltiad â budd-dal, yn unol â'r diffiniad yn Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Taliadau mewn Cysylltiad â Budd-dal) 2013;
 - o. unrhyw un o'r symiau canlynol, fel y'u diffinnir gan Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013, sy'n llunio dyfarniad credyd cynhwysol —
 - i. swm ychwanegol i'r elfen plant mewn cysylltiad ag unrhyw blentyn anabl;
 - ii. elfen costau tai;
 - iii. elfen costau gofal plant;
 - iv. elfen gofalwr;
 - v. elfen galluogrwydd cyfyngedig neu allu cyfyngedig i weithio a gweithgarwch cysylltiedig â gwaith.

Atodiad D: Apeliadau

Os bydd y sawl sy'n gwneud cais am ddileu ffioedd yn dymuno apelio, mae'n rhaid iddynt:

- Ysgrifennu at y llys neu'r tribiwnlys erbyn y dyddiad a nodir ar lythyr gwrthod swyddog y llys neu dribiwnlys (bydd hyn tua 14 diwrnod o'r dyddiad y bydd yr ymgeisydd yn derbyn y llythyr);
- Dweud pam nad ydynt yn hapus â'r penderfyniad a wnaed;
- Cynnwys unrhyw dystiolaeth yr oeddent wedi'i chynnwys gyda'u cais gwreiddiol ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol i gefnogi eu hachos.

Bydd y Rheolwr Cyflenwi (Rheolwr y Llys neu Dribiwnlys) yn ystyried eu hapêl ac yn hysbysu'r ymgeisydd o'u penderfyniad o fewn deg diwrnod gwaith.

- Os caniateir yr apêl, ac y rhoddir dilead llawn, bydd swyddog y llys neu dribiwnlys yn prosesu papurau'r llys neu dribiwnlys ar gyfer y dilead.
- Pan gymeradwyir apêl ar gyfer dilead rhannol, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod faint o'r ffi y bydd yn rhaid iddynt ei thalu. Ni ellir prosesu papurau'r llys neu dribiwnlys nes y bydd y swm hwnnw wedi'i dderbyn.
- Os gwrthodir yr apêl, bydd y rheolwr cyflenwi yn ysgrifennu at yr ymgeisydd, yn esbonio'r rhesymau pam y gwrthodwyd yr apêl.

Gall yr ymgeisydd apelio unwaith eto i'r rheolwr gweithredol. Bydd enw a chyfeiriad y rheolwr hwn ar y llythyr gwrthod. Er mwyn cyflwyno apêl i'r Rheolwr Gweithredol, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddilyn yr un gweithdrefnau ag ar gyfer apelio i'r Rheolwr Cyflenwi.

Bydd penderfyniad y Rheolwr Gweithredol yn derfynol, ac ni ellir apelio yn erbyn y penderfyniad hwn.

Manylion cyswllt Cydlynnydd yr Ymgynghoriad

Os oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, dylech gysylltu â Sheila Morson ar 020 3334 4498, neu anfon e-bost ati: sheila.morson@justice.gsi.gov.uk.

Fel arall, gallwch ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad isod:

Ministry of Justice
Consultation Co-ordinator
Better Regulation Unit
Analytical Services
7th Floor, 7:02
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ



Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa, ac mae ar gael:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Post, ffôn, ffacs ac e-bost

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

Gallwch archebu drwy'r Linell Seneddol 0845 7 023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn testun: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop

12 Bridge Street, Parliament Square,

London SW1A 2JX

Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

E-bost: shop@parliament.uk

Rhyngwyd: <http://www.shop.parliament.uk>

TSO@Blackwell and other accredited agents

